

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru

CP 24 - Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyflwyniad i'r Ymchwiliad i'r Cyfraniad a wneir gan Fferyllfeydd Cymunedol i Wasanaethau Iechyd yng Nghymru

Medi 2011

Manylion cyswllt:

Russell Goodway

Prif Weithredwr

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

2 Caspian Point

Caspian Way

CAERDYDD

CF10 4DQ

E-bost: russell.goodway@cpwales.org.uk

CYNNWYS:

TEITL	TUDALEN
Rhan 1 Cyflwyniad	3
Rhan 2 Sylwadau Cyffredinol	4
Rhan 3 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol y GIG	8
Rhan 4 Ymatebion i faterion penodol y Pwyllgor	12
Rhan 5 Casgliadau ac Argymhellion	24

Atodiad 1

Iechyd Da: Y Feddyginiaeth Orau ar gyfer Bywydau Iechyd yng Nghymru.
Maniffesto Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar gyfer etholiadau 2011 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Atodiad 2

Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar yr ymgyrch Iechyd Cyhoeddus Cymru-gyfan gyntaf erioed i'w chynnal mewn fferyllfeydd cymunedol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyflwynir yr ymateb hwn gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW) i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad ar gyfer eu hymchwiliad i gyfraniad fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.
- 1.2 Caiff CPW ei gydnabod yn Neddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fel yr unig sefydliad sy'n gyfrifol am gynrychioli pob un o'r 708 fferyllifa gymunedol yng Nghymru ar bob mater yn ymwneud â gwasanaethau fferylliaeth gymunedol y GIG.
- 1.3 Fferylliaeth Gymunedol Cymru yw'r unig sefydliad sy'n cynrychioli pob fferyllifa gymunedol yng Nghymru. Mae'n gweithio gyda Llywodraeth a'i hasiantaethau, megis Byrddau Iechyd Lleol, i helpu diogelu a datblygu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol ansawdd uchel a llunio fframwaith contactiol fferylliaeth gymunedol (CPCF) y GIG a'i rheoliadau cysylltiedig. Drwy wneud hynny, ei nod yw sicrhau'r safonau uchaf mewn iechyd cyhoeddus a'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.
- 1.4 Er bod iechyd yn fater a ddatganolwyd, mae'r CPCF yn parhau'n contract Lloegr a Chymru, a negodir yn flynyddol rhwng yr Adran Iechyd yn Whitehall a'r Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferylliaeth, y mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn aelod ohono. Fodd bynnag, nid oes gan CPW gynrychiolydd ar y pwyllgor negodi ac nid yw CPW na swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu'r trafodaethau contract. Mae CPW wedi rhoi sylwadau i'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dadlau dros hawl CPW a swyddogion Llywodraeth Cymru i gael statws sylwedydd yn y trafodaethau er mwyn hwyluso trafodaethau mwy gwybodus ac effeithiol ar eu goblygiadau ar gyfer Cymru.
- 1.5 Mae CPW yn cynrychioli rhwydwaith o fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hanfodol a gwerthfawr iawn yng nghanol cymunedau lleol. Mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu ym mron bob cymuned ar draws Cymru, yn cynnwys cymunedau gwledig, ardaloedd trefol amddifadus a chanolfannau metropolitaidd mawr. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y rhwydwaith o fferyllfeydd cymunedol Cymru rhyngddynt yn delio gyda chyfanswm o fwy na 50,000 o achosion unigol.

2. Sylwadau Cyffredinol

- 2.1 Fferylliaeth Gymunedol yw'r bartneriaeth cyhoeddus-preifat eithaf. Byth ers creu'r GIG yn 1948, yn yr un modd ag ymarferwyr gofal sylfaenol eraill megis y rhan fwyaf o feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion, mae fferyllfeydd cymunedol mewn eiddo preifat ond yn darparu gwasanaethau a ariannir yn gyhoeddus gan y GIG dan gontract gyda'r Adran Iechyd. Gyda fferyllfeydd cymunedol yn llwyr gyfrifol am safleoedd, staff a stociau meddyginiaethau ac offer, mae'r contract yn sicrhau trosglwyddiad sylweddol o risg o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat.
- 2.2 Mae'r GIG yn dibynnu ar bŵer prynu cystadleuol rhwydwaith o 11,000 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru a Lloegr i ostwng costau'r cyffuriau a ddosbarthant. Mae grym prynu'r rhwydwaith cyfun wedi arbed mwy na £1.5 biliwn i'r GIG mewn costau meddyginiaethau ers 2005.
- 2.3 Caiff y pris y mae'r GIG yn ei dalu i'r fferyllfa am feddyginiaethau presgripsiwn y mae'n eu gweinyddu eu nodi yn y Tariff Cyffuriau, sy'n gatalog misol o'r holl feddyginiaethau y mae'r GIG yn barod i'w hariannu. Mae'n rhaid i'r rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol gyfrif am unrhyw wargedion (h.y. y gwahaniaeth rhwng y pris Tariff Cyffuriau y mae'n ei dderbyn gan y GIG a chost y feddyginiaeth a godir gan y cynhyrchydd neu gyflenwr) a gaiff o'r meddyginiaethau a weinyddir. Mae'r contract fferyllfa gymunedol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhwydwaith yng Nghymru a Lloegr gadw lefel a gytunwyd o wargedion a gynhyrchir yn y ffordd yma. Mae'r GIG yn adennill unrhyw wargedion sy'n fwy na'r swm a gytunwyd. Y llynedd, elwodd GIG Cymru ar tua £11 miliwn o rym prynu fferyllfeydd cymunedol seiliedig yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, er bod fferyllfeydd cymunedol yn derbyn ffioedd a lwfansau am y gwasanaethau GIG penodol y maent yn eu darparu, eu bod hefyd yn cyfrannu cyllid i'r GIG gan ei wneud yn bartneriaeth unigryw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd o fudd i system genedlaethol gofal iechyd yn ei chyfanrwydd.
- 2.4 Mae'r rhwydwaith fferylliaeth gymunedol ar agor saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn ac mae'n gweithredu tu allan i oriau 9.00am i 5.00pm. Darperir ymgynghoriadau heb fod angen apwyntiad. Mae gan y rhan fwyaf o fferyllfeydd ystafelloedd ymgynghori, sy'n sicrhau cyfrinachedd cleifion ac mae'r rhan fwyaf o fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu gwasanaethau dosbarthu i'r cartref ar gyfer meddyginiaethau, cyfarpar a gofynion eraill.
- 2.6 Er y gydnabyddiaeth eang o botensial enfawr y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol ar draws y sbectrwm gwleidyddol a iechyd, am ryw reswm mae'n parhau ased gofal iechyd sydd ymhell o gael ei defnyddio i'w heithaf.
- 2.7 Yn rhy aml o lawer, y rhesymau a roddir gan Fyrddau Iechyd am beidio comisiynu gwasanaethau y maent yn cydnabod y byddai fferyllfeydd cymunedol yn medru eu cyflwyno'n fwy effeithiol a defnyddiol yw eu bod eisoes yn talu i feddygon teulu am wneud hynny. Os felly, yna drwy ddiffiniad

maent yn talu i feddygon teulu am wneud y pethau anghywir ac ni ddylai hynny gael parhau.

- 2.7 Fferylliaeth gymunedol yw'r opsiwn mwyaf effeithol o ran cost ar gyfer ystod gyfan o wasanaethau a ariannir gan y GIG. Yn wahanol i feddygon teulu, a gaiff eu hariannu'n bennaf gan daliad y pen am bob claf cofrestredig sy'n parhau ar eu rhestr cleifion ond sydd, ar gyfer rhai gwasanaethau a gomisiynir yn benodol - er enghraifft rhoi brechiadau fflw - yn derbyn ffi ychwanegol bob tro y darperir y gwasanaeth, dim ond am y gwasanaethau gwirioneddol y mae fferyllfeydd cymunedol yn eu cyflenwi y cânt eu talu. Ymhellach, dangosodd ymchwil fod ymgynghoriad gyda meddyg teulu yn costio £32 ar gyfartaledd o gymharu â chost ymgynghoriad fferyllfa o £17.75. Mae hynny'n arbediad o £14.25 fesul ymgynghoriad i'r GIG.¹ Amcangyfrifodd yr un ymchwil, pe bai eu fferyllfeydd yn hytrach na'u meddyg teulu yn gweld cleifion gyda mân anhwylderau, y medrai fod yn bosibl i'r GIG yng Nghymru arbed £30 miliwn bob blwyddyn.
- 2.8 Nid oes angen i bobl iach weld eu meddyg ac yn sicr, nid yw eu meddyg yn dymuno eu gweld hwy. Mae arweinwyr meddygon teulu yng Nghymru wedi beirniadu'n gyhoeddus syniadau presennol Llywodraeth Cymru sy'n anelu i ymestyn yr oriau y mae meddygon teulu ar gael i weld cleifion gan ddweud y byddent yn ailgyfeirio adnoddau prin y GIG tuag at yr iach pryderus. Yn ychwanegol, dywedant fod angen i Gymru ganolbwyntio ar yr angen i ddiogelu pobl yn eu cartrefi eu hunain ac atal poblogaethau musgrell ac oedrannus rhag cael eu gadael mewn ysbytai drwy eu trin yn y gymuned², gan ychwanegu y caiff hyn ei beryglu gan gyfeiriad presennol polisi'r Llywodraeth. Mae fferyllfeydd cymunedol yn adnodd sydd ar gael yn rhwydd ac sydd mewn sefyllfa dda tu hwnt i helpu datrys y cyfyng gyngor yma.
- 2.9 Ar hyn o bryd mae pobl fusgrell a'r henoed yn cystadlu am apwyntiad meddyg teulu gyda'r hyn a elwir yr „iach pryderus“ ac eraill gyda chyflyrau heb fod yn frys nad oes angen i feddyg eu gweld. Mae'r defnydd cynyddol o dechnolegau newydd ar gyfer sicrhau apwyntiad meddyg teulu yn aml yn golygu bod achosion llai anghenus yn cael eu gweld yn gyntaf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu - ac mae hynny'n wir yn rhy aml - fod angen atgyfeiriad gan feddyg teulu i dderbyn triniaeth briodol.
- 2.10 Os na eir ati i gymryd camau i newid y sefyllfa, mae amcanestyniadau demograffig Llywodraeth Cymru ei hunan - sy'n rhagweld cynnydd o 3% yn y boblogaeth dros yr 20 mlynedd, gyda'r boblogaeth dros oedran ymddedol nesaf yn cynyddu gan 11% a disgwyliad y bydd nifer y bobl dros 85 oed yn cynyddu i 82,000³ - yn awgrymu y bydd gallu meddygon teulu i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain neu mewn man arall yn y gymuned yn anghynnaladwy. Mae'n anochel y bydd y gofynion dilynol ar wasanaethau ysbyty a gofal uwchradd yn dod yn anhyfyw.

¹ The Bow Group, Delivering Enhanced Pharmacy Services in a Modern NHS

² Dr David Bailey, cadeirydd Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru y BMA, *Western Mail*, 14 Chwefror 2011

³ Iechyd Cyhoeddus Cymru

- 2.11 Rhaid i'r datrysiad fod i wneud defnydd mwy creadigol a helaeth o'r stad gofal sylfaenol bresennol. Mae'r stad gofal iechyd yn cynnwys mwy na'r adeiladau y mae'r GIG yn berchen arnynt. Mae'n cynnwys y safleoedd hynny lle caiff gwasanaethau gofal iechyd pwysig eu darparu. Medrir cyflawni potensial yr elfen hon o stad gofal iechyd y genedl heb fod angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd nac addasiadau sylweddol i reoliadau presennol ac, yn fwy na hynny, heb fod angen unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn eiddo tiriog, dim arian newydd yn gyffredinol a'i gyflawni heb ymyrryd yn sylweddol i wasanaethau presennol.
- 2.12 Pe byddai'r GIG a Byrddau Iechyd Cymru yn cydnabod y cyfraniad y medrai'r rhwydwaith fferylliaeth gymunedol ei wneud i wasanaethau gofal sylfaenol, mae'n debygol iawn y bydd timau amlddisgyblaeth, yn cynnwys nyrsys a hyfforddwy'r iechyd gyda chymwysterau, yn gweithredu o safle fferylliaeth gymunedol.
- 2.13 Mae Fferylliaeth Gymunedol yn ganolog i gyflawni agenda iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae gallu'r GIG i ymdopi gyda gofynion y dyfodol ar ei adnoddau yn ddibynnol iawn ar allu'r Llywodraeth i fynd i'r afael â chlefydau ac afiechydon sy'n gysylltiedig â dewisiadau ffordd o fyw. Mae newid arferion oes yn her galed i unrhyw un. Ymddygiad caethiwus yw'r anoddaf o'r cyfan i'w goresgyn. Byddai rhwydwaith fferylliaeth gymunedol o 708 o ganolfannau Byw'n Iach ar y Stryd Fawr fel sianel ar gyfer ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus wedi'u trefnu ac yn cynnig yr amrediad llawn o wasanaethau sy'n anelu i newid ffordd o fyw a gwella iechyd cyhoeddus yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni targedau presennol y Llywodraeth.
- 2.14 Os yw gallu'r GIG i ymdopi gyda gofynion y dyfodol yn dibynnu ar bobl yn newid arferion oes, yna mae'r un peth yn wir am y Llywodraeth ei hunan. Mae angen ymrwymiad cenedlaethol i newid cynaliadwy i sicrhau'r canlyniadau y mae Cymru eu hangen. Mae angen i Lywodraeth gydnabod fod y GIG yn fwy na dim ond gwasanaeth a gyflenwir gan feddygon a nyrsys ac nad dim ond mewn ysbytai a meddygfeydd y mae angen i feddygon a nyrsys weithio.
- 2.15 Nid yw gwasanaethau a gomisiynir un flwyddyn ond i gael eu dadgomisynu'r flwyddyn wedyn i helpu i ddod â deupen llinyn ynghyd y sbardun i newid y mae'r GIG yng Nghymru ei angen. Dros gyfnod parhaus, bydd gwasanaethau a gomisiynir yn iawn yn arwain at gynyddu buddsoddiad gan gontractwyr fferylliaeth gymunedol mewn safleoedd, mwy o staff a hyfforddiant fydd yn sicrhau cyfleoedd economaidd a chyflogaeth newydd ar gyfer y boblogaeth leol yn ogystal â gwelliannau gofal iechyd.
- 2.16 Cyn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai 2011, cyhoeddodd CPW ei fanifesto ei hun *Iechyd Da: Y Feddyginiaeth Orau ar gyfer Bywydau Iach yng Nghymru*, a ddadleuodd dros rôl gryfach a mwy rhagweithiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol fel darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yng Nghymru. Galwodd yn neilltuol ar Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad i:

- a) *Rhoi mwy o gyfrifoldeb i fferyllfeydd cymunedol am ddarparu gwasanaethau rheng flaen y GIG, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol yng Nghymru;*
- b) *Cyflwyno gwasanaeth cenedlaethol mân anhwylderau yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;*
- c) *Creu rhwydwaith o Fferyllfeydd Byw'n Iach yn defnyddio'r rhwydwaith presennol o fferyllfeydd cymunedol;*
- ch) *Gwneud fferyllfeydd cymunedol yn ganolog i reoli meddyginiaethau yng Nghymru drwy ystod o wasanaethau rheoli meddyginiaethau wedi'u targedu;*
- d) *Cyflwyno gwasanaeth cenedlaethol gwastraff meddyginiaethau wedi'u targedu yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;*
- dd) *Cyflwyno gwasanaeth rheoli cyflyrau cronig yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;*
- e) *Sefydlu gwasanaeth cysoni meddyginiaeth a chefnogaeth rhyddhau o ysbyty i helpu cleifion yn trosglwyddo rhwng gosodiadau gofal.*

2.17 Cafodd CPW ei galonogi fod llawer o'r ymrwymadau a wnaeth wedi'u cynnwys ym manifestos pob un o'r pedair plaid gwgleidyddol yn yr etholiadau hynny. Amgaeir copi o ddogfen manifesto CPW yn Atodiad 1 ac mae'n ffurfio rhan o'r dystiolaeth yma.

3. Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol y GIG

3.1 Mae tair lefel gwasanaeth wahanol yn Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol:

- a) Gwasanaethau Hanfodol – a ddarperir gan bob contractwr;
- b) Gwasanaethau Uwch – gall pob contractwr eu darparu unwaith y cyflawnwyd yr holl ofynion achredu;
- c) Gwasanaethau Ychwanegol - caiff y fanyleb a'r gwerth eu cytuno'n genedlaethol ond eu comisiynu'n lleol gan Fyrddau Iechyd mewn ymateb i anghenion y boblogaeth leol.

3.2 Gwasanaethau Hanfodol:

- a) Gweinyddu - Cyflenwi meddyginiaethau neu offer, cyngor a roddir i'r claf am y meddyginiaethau sy'n cael eu gweinyddu a chyngor am ryngweithiad posibl gyda meddyginiaethau eraill. Hefyd cofnodi'r holl feddyginiaethau a ddsberthir a chyngor arwyddocaol a roddwyd ac atgyfeiriadau ac ymyriadau a wnaed.
- b) Amlweinyddu - Rheoli meddyginiaeth ar aml-bresgripsiwn am hyd at un flwyddyn mewn partneriaeth gyda'r claf a'r sawl sy'n rhoi'r presgripsiwn. Bydd y claf yn dychwelyd i'r fferyllfa am ail gyflenwad, heb orfod ymweld â'r feddygfa yn gyntaf. Cyn pob cyflenwad bydd y fferyllfa yn cadarnhau angen y claf am gyflenwad arall o feddyginiaeth neilltuol. Bydd y fferyllfydd yn cyfathrebu'r holl faterion sylweddol i'r sawl sy'n rhoi'r presgripsiwn gydag awgrymiadau am newidiadau i'r feddyginiaeth fel sy'n briodol.
- c) Gwaredu â meddyginiaethau diangen - Casglu meddyginiaethau diangen o gartrefi ac unigolion drwy fferyllfeydd. Bydd trefniadau arbennig ar gyfer cyffuriau wedi eu rheoli (yn dilyn ymchwiliad Shipman).
- ch) Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw (iechyd cyhoeddus) – Achub ar y cyfle am gyngor un i un ar bynciau ffordd o fyw iach megis rhoi'r gorau i ysmegu i rai grwpiau o gleifion sy'n cyflwyno presgripsiynau ar gyfer eu gweinyddu. Hefyd cymryd rhan mewn chwe ymgyrch leol y flwyddyn, a drefnir gan fyrddau Iechyd. Gall enghreifftiau o ymgyrchoedd gynnwys hyrwyddo'r defnydd o frechiadau fflw neu addysgu'r cyhoedd am ddefnydd priodol o wrthfotigau.
 - i) *Dadleuodd CPW ers cryn amser y byddai ymgyrchoedd Iechyd cyhoeddus yn llawer mwy effeithiol pe byddent yn cael eu rhedeg yn gyffredinol fel ymgyrchoedd cenedlaethol ar draws Cymru ar yr un pryd. Cytunodd pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth Diabetes genedlaethol a drefnwyd ar y cyd*

gan CPW a Diabetes UK Cymru dros yr un cyfnod o ddwy wythnos ym Mehefin 2011. Mae canlyniadau'r ymgyrch yn dangos y sicrhawyd gwerth ychwanegol rhagorol i'r trefniadau presennol a phrofodd yn llwyddiannus iawn. Amgaeir copi o adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar yr ymgyrch fel Atodiad 2. Byddai CPW yn gobeithio gweld mwy o'r 6 ymgyrch flynyddol yn cael eu rhedeg ar sail Cymru-gyfan yn y dyfodol.

- d) Cyfeirio cleifion at ddarparwyr gofal iechyd eraill - Bydd y fferylllydd a'r staff yn atgyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol gofal iechyd neu ddarparwyr gofal arall lle'n briodol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys atgyfeiriad i ffynonellau eraill o help megis grwpiau cleifion lleol neu genedlaethol.
- dd) Cefnogaeth ar gyfer hunanofal - Darparu cyngor a chefnogaeth gan staff fferyllfa i alluogi pobl i gael y budd mwyaf o ofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio i ddechrau ar salwch sy'n cyfyngu'i hunan, ond mae cefnogaeth ar gyfer pobl gyda chyflyrau hirdymor hefyd yn nodwedd o'r gwasanaeth.
- e) Llywodraethu clinigol - Mae'r gofynion yn cynnwys defnyddio gweithdrefnau safonol, rhoi adroddiadau i'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion am ddigwyddiadau diogelwch claf, dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus y fferylllydd, cynnal archwiliadau clinigol ac arolwg boddhad cleifion.

3.3 Gwasanaethau Uwch

- a) Adolygiad Defnydd Meddyginiaeth a Gwasanaeth Ymyriad Presgripsiwn - Mae'r fferylllydd yn cynnal adolygiad meddyginiaeth yn canoli ar goncordans gyda'r claf. Mae'r adolygiad yn asesu unrhyw broblemau gyda'r feddyginiaeth bresennol a'i gweini. Asesir gwybodaeth y claf o'u trefn meddyginiaeth a chaiff adroddiad ei fwydo'n ôl i feddyg teulu'r claf. Caiff gwybodaeth y claf o'u meddyginiaeth a pham eu bod yn ei gymryd ei gynyddu; caiff problemau gyda'u meddyginiaeth eu dynodi a'u trin.
- b) Cynhelir yr Adolygiad Defnydd Meddyginiaeth yn rheolaidd, e.e. bob 12 mis. Mae'r Gwasanaeth Ymyriad Presgripsiwn yr un fath yn ei hanfod â'r gwasanaeth Adolygiad Defnydd Meddyginiaeth, ond fe'i cynhelir ar sail ad hoc, pan amlygir problem sylweddol gyda meddyginiaeth claf yn ystod y broses weinyddu. Bydd y fferylllydd yn rhoi awgrymiadau a sylwadau i'r sawl sy'n rhoi'r presgripsiwn yn defnyddio gwaith papur safonol (electronig maes o law). Mae'n rhaid cynnal adolygiadau mewn ardal ymgynghori sy'n sicrhau cyfrinachedd y claf. Mae'n rhaid i fferyllwyr basio asesiad cymhwysedd cyn y medrant ddarparu gwasanaethau Uwch.
 - i) *Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng CPW a swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth uwch newydd yng Nghymru. Byddai'r Gwasanaeth*

Meddyginiaeth yn dilyn Rhyddhau o Ysbyty yn rhoi cefnogaeth i gleifion a gafodd eu rhyddhau o ysbyty yn ddiweddar drwy sicrhau y caiff newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wnaed yn ystod cyfnod mewn ysbyty eu gweithredu fel y bwriadwyd yn y gymuned, gan helpu i ostwng risg problemau y medrid eu hosgoi yn gysylltiedig â meddyginiaethau a chefnogi cydymffurfiaeth gyda meddyginiaeth ar bresgripsiwn newydd. Bydd y gwasanaeth newydd yn costio £3.6 miliwn ac fe'i hariannir allan o gyfran y Llywodraeth o'r £11 miliwn o "elw ar brynu meddyginiaeth" y cyfeirir ato uchod. Cyfrifwyd y £3.6 miliwn yn ddiweddar fel canlyniad i ryddhau £55 miliwn yn Lloegr ar gyfer gwasanaeth meddyginiaeth newydd.

3.4 Gwasanaeth Ychwanegol

- a) Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:
- Rheoli mân anhwylderau
 - Sgrinio diabetes
 - Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
 - Gwasanaethau rheolaeth meddyginiaethau ar gyfer clefydau penodol
 - Gwasanaethau gofal lliniarol
 - Gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd argyfwng
 - Adolygiad clinigol llawn o feddyginiaeth
 - Gwasanaethau gofal cartref
 - Gwasanaeth rheoli llau pen
 - Gwasanaeth atal ysmegu
 - Gwasanaeth cyflenwi bwyd heb glwten
 - Cynllun cyfnewid nodwyddau
 - Gwasanaethau i ysgolion
- b) Rhagwelir y bydd fframwaith y contract yn datblygu dros gyfnod, i gadw'n gydwastad gyda'r newid yn anghenion cleifion a'r GIG. Gall y datblygiad graddol mewn contract, er enghraifft, weld rhai gwasanaethau Uwch neu Ychwanegol yn dod yn rhan o'r categori Hanfodol.
- i) *Y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd argyfwng ym mis Ebrill, yw'r unig wasanaeth ychwanegol cenedlaethol a gomisiynwyd yng Nghymru er hyn o bryd er bod gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd argyfwng a gomisiynwyd yn lleol ar gael mewn rhannau o Gymru er yn seiliedig ar wahanol fanylebion gwasanaeth a gwahanol ffioedd. Mae hwn yn un o bedwar gwasanaeth yr argymhellodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ym Medi 2009 y dylid ei gyflwyno fel Gwasanaethau Ychwanegol Cenedlaethol. Y tri gwasanaeth arall yw gwasanaeth cenedlaethol atal ysmegu, gwasanaeth cenedlaethol mân anhwylderau a gwasanaeth cenedlaethol wedi'i anelu at fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, sef gwasanaeth cyfnewid chwistrellau a nodwyddau a gwasanaeth gweinyddu dan arolygaeth.*
- ii) *Dwy enghraifft o wasanaethau ychwanegol a gomisiynir yn lleol sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd yw gwasanaethau atal ysmegu, er o natur wahanol, a Gwasanaeth Mân Anhwylderau Torfaen, a*

sefydlwyd gan gyn Fwrdd Iechyd Lleol Torfaen ond sy'n awr yn cael ei adolygu gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, a olynodd Fwrdd Iechyd Lleol Torfaen, gyda golwg ar ei ddadgomiynu.

4. Materion penodol y gwahoddodd y Pwyllgor sylwadau arnynt

4.1 Effeithiolrwydd y contract fferyllfeydd cymunedol o ran ehangu'r cyfraniad a wneir gan y fferyllfeydd hyn i wasanaethau iechyd a lles.

- a) Cred CPW fod y trefniadau contract presennol yng Nghymru mewn perygl o ddod yn rhwystr sylweddol i wella cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd a lles.
- b) Mae'r contract fferyllfeydd cymunedol presennol yn gontract Lloegr a Chymru a negodwyd yn 2005 gyda'r diben penodol o alluogi fferyllfeydd cymunedol i gyflenwi ystod ehangach o weinyddu presgripsiynau. Mae'r contract yn cydnabod mai fferyllwyr yw'r arbenigwyr ar feddyginiaethau yn nhermau gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a bwriedid i'r contract ddefnyddio'r sgil helaeth yma ar ystod ehangach o wasanaethau gofal cleifion y GIG.
- c) Seiliwyd y contract yn Lloegr ar *Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllfiaeth) 2005*. Fodd bynnag, ni chafodd set arfaethedig o reoliadau cyfunol i fod yn sylfaen i ddimensiwn y contract yng Nghymru erioed eu cynhyrchu. Yn hytrach, mae'r trefniadau presennol yng Nghymru yn dibynnu ar reoliadau 1992 a gafodd gyfres o welliannau mewn ymgais i adlewyrchu'r newid yn y sefyllfa yng Nghymru. Mae newidiadau i gywiro anomaleddu yn y trefniadau gweinyddu cyffuriau yn nhrefi marchnad gwledig Cymru - yr hyn a elwir y "rheoliadau gwledig" - a gyflwynwyd yn 2009 yn enghraifft ddiweddar o newidiadau i'r fath.
- ch) Mae'r patrwm o wasanaethau GIG a gyflenwir yng Nghymru drwy rwydwaith fferyllfeydd cymunedol Cymru yn dod yn gynyddol wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr. Mae hyn oherwydd newidiadau sylweddol ym mholisi'r GIG yn Lloegr na chafodd, yn gywir, eu dyblygu yng Nghymru.
- d) Yn absenoldeb set o reoliadau cyfunol yn sylfaen i drefniadau Cymru a heb unrhyw gontract penodol ar gyfer Cymru, mae ymarferwyr a sylwedyddion yn dechrau holi os yw'r trefniadau presennol yn parhau'n ddilys a dadlau fod angen i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth gynnar i ganlyniadau'r newidiadau yng Nghymru yng nghyd-destun Cymru. Mae'n amlwg yn ddyletswydd ar swyddogion Llywodraeth Cymru i geisio cadw integriti y contract cyfredol gan eu bod yn aml yn ei chael yn anodd trosi datblygiadau yn Lloegr yn unig yn gynigion credadwy i Gymru a all gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae amharodrwydd clir i grwydro'n rhy bell o fframwaith Lloegr oherwydd ofn cynyddu pryderon presennol am ddilysrwydd y contract.
- dd) Mae penodi Prif Swyddog Fferylliaeth a Rheolwr Polisi Fferylliaeth Llywodraeth Cymru wedi arwain at i fferylliaeth yng Nghymru gael ei wasanaethu'n well nag ar unrhyw amser yn y gorffennol diweddar. Fodd bynnag, mae CPW yn parhau'n bryderus am ddiffyg galluedd

swyddogol o fewn peirianwaith y gwasanaeth sifil i weithredu'r newidiadau sydd eu hangen i wireddu uchelgais y Llywodraeth. Yn neilltuol, ni chafodd CPW ei ddarbwylllo, ar ôl 6 mlynedd, bod gan Lywodraeth Cymru y galluedd deddfwriaethol i gynhyrchu rheoliadau fferylliaeth cyfunol ac y medrai hyn gael effaith niweidiol ar gynnydd ar gyflawni'r agenda polisi os na chaiff hyn ei drafod fel mater o beth brys.

4.2 Y graddau y mae byrddau iechyd lleol wedi manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y contract i ehangu gwasanaethau fferyllol drwy ddarparu gwasanaethau ‘gwell’ ac enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus.

a) Mae nifer o enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus:

i) Gwasanaeth Mân Anhwylderau Torfaen

Yn Nhorfaen defnyddiodd y cyn Fwrdd Iechyd Lleol “arian Wanless” i gyflwyno gwasanaeth mân anhwylderau yn 2006 lle gall pobl ymweld â’u fferyllfa leol i gael cyngor a thriniaeth yn rhad ac am ddim. Yn ystod 2009/10, mewn dim ond un fferyllfa yng Nghwmbrian, derbyniodd 752 o bobl ymgynghoriad mân anhwylderau yn rhyddhau amcangyfrif o 125 awr o amser meddygon teulu lleol ac arbed tua £10,800 i’r Bwrdd Iechyd Lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn ystyried dadgomisiynu’r gwasanaeth.

ii) Gwasanaethau Atal Ysmygu Lefel 3 Gogledd Cymru

Mae gwasanaethau Lefel 3 wedi parhau i fod ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o Ogledd Cymru, gyda dim ond cyn Fwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint yn methu comisiynu’r gwasanaeth. Mae’r gwasanaeth Lefel 3 yng Ngogledd Cymru wedi sicrhau cyfraddau atal ysmygu o tua 46% sydd ymysg yr uchaf a gyflawnwyd unrhyw le. Fodd bynnag, mae’n debygol mai’r gwasanaeth cenedlaethol ychwanegol fydd gwasanaeth Lefel 2 (cyflenwad yn unig).

iii) Gwasanaeth Gofal Sylfaenol ychwanegol lleol ar gyfer cleifion gyda diabetes yng Nghanolbarth Cymru

Comisiynwyd cymorth fferyllfeydd cymunedol yn Llanidloes i gefnogi clinigau diabetes mewn meddygfeydd. Yn y model hwn o ofal, dynododd y feddygfa gleifion nad oedd eu rheolaeth o ddiabetes gystal ag y medrai fod. Cafodd cleifion wedyn eu gwahodd i fynychu clinig misol lle gwelodd y fferyllfydd bob claf yn union cyn eu hapwyntiad gyda’r meddyg teulu. Yn ystod eu hymgynghoriad gyda’r fferyllfydd adolygwyd meddyginiaeth y claf ac asesodd y fferyllfydd sut yr oedd y claf yn cymryd eu meddyginiaeth a’r hyn a wyddent amdanynt. Cafodd gwybodaeth a chyngor ei roi wedyn, gallai’r fferyllfydd hefyd awgrymu newidiadau posibl i driniaeth, yn dilyn trafodaeth gyda’r claf. Dangosodd gwerthusiadau o’r model gwasanaeth yma nad oedd llawer o gleifion yn cymryd eu meddyginiaethau’n rheolaidd hyd yn oed er eu bod yn dod i’w nôl yn rheolaidd ac nid oedd bron dri chwarter y cleifion yn gwybod beth oedd pwrpas o leiaf un o’u meddyginiaethau. Dangoswyd hefyd fod diffyg cydymffuriad gyda cyfarwyddyd meddyginiaethau hefyd yn fater i lawer o gleifion ond cafodd hyn ei ddatrys drwy drafodaethau rhwng y fferyllfydd a’r cleifion gan sicrhau parodrwydd claf i ailddechrau eu meddyginiaeth a’u cymryd fel yr oeddent i fod.

Mae’r enghraifft hon yn dangos y defnydd gorau o’r ddarpariaeth gwasanaethau ychwanegol i gefnogi cynllun lleol i ateb anghenion

iechyd y boblogaeth leol na chaiff eu diwallu ar hyn o bryd, gan alluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni ei nod o wella iechyd.

iv) **Atal a rheoli clefyd coronog y galon yng Ngorllewin Cymru:**

Mae prosiect Iechyd Coronog y Galon Sir Benfro wedi defnyddio sgiliau pedair fferyllfa gymunedol i gynnig asesiad risg ffordd o fyw ar gyfer cleifion y dynodwyd eu bod yn debygol o fod â ffactorau risg sylweddol ar gyfer datblygu clefyd coronog y galon yn y dyfodol agos. Canolbwyntiodd rôl y fferyllfydd ar ddynodi'r bobl hynny nad yw'n mynd at eu meddyg teulu, gan felly gynyddu'r boblogaeth sy'n derbyn y gwasanaeth. Gellir hefyd wneud atgyfeiriadau i gynghorwyr bwyta'n iach o'r fferyllfeydd. Dangosodd archwiliad o'r 40 o bobl gyntaf i gymryd rhan yn y cynllun fod gan hanner risg afiechyd coronog y galon o dros 15%, roedd gan un mewn deg risg afiechyd coronog y galon o dros 30%, roedd un mewn pedwar eisoes wedi cael diagnosis o gyflwr y galon ac roedd gan hanner hanes teuluol o glefyd y galon.

v) **Addysg cleifion mewn clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a chyflyrau cronig eraill yn Ne Cymru:**

Mae fferyllfeydd sy'n gweithio ym Mwrdd Iechyd Lleol Torfaen wedi cyflwyno sesiynau addysgol ar feddyginiaeth mewn grwpiau cwrs addysg strwythuredig a hwyluswyd gan nyrsys arbenigol cyflyrau hirdymor. Mae'r sesiynau hyn wedi cynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, diabetes, y grŵp ymarfer cardiaidd a'r grŵp adsefydlu strôc. Cafodd y sesiynau dderbyniad da gan gleifion gan eu bod yn galluogi trafodaethau dwy ffordd am eu rheolaeth afiechyd ac yn rhoi cyngor priodol i helpu i wella llythrennedd iechyd. Roeddent hefyd yn gyfle am drafodaethau ehangach am ddefnyddio Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol, costau meddyginiaeth a defnyddio meddyginiaethau brand a generig.⁴

- b) Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos gwaith prosiect sydd wedi arddangos canlyniadau llwyddiannus i gleifion. Nid ydynt wedi eu sefydlu o fewn darpariaeth gwasanaeth fferylliaeth gymunedol fodd bynnag ac o'r herwydd heb fod â sicrwydd cyllid hirdymor na chynaliadwyedd.
- c) Fodd bynnag, serch yr enghreifftiau uchod ac er prif bwyslais contract fferylliaeth gymunedol 2005 a chyhoeddiad mwy diweddar Gosod y Cyfeiriad - datganiad o bolisi Llywodraeth Cymru i sicrhau newid sylfaenol yn narpariaeth gwasanaethau gofal iechyd o'r sector eilaidd i'r sector sylfaenol - bu comisiynu gwasanaethau ychwanegol gan Fyrddau Iechyd Lleol yn siomedig iawn. Bu'r trawsnewid disgwylidig o fferyllfeydd cymunedol i fod yn ganolfannau Gofal Iechyd Stryd Fawr ar ei orau yn araf ac yn ddarniog ac ar ei waethaf, ni ddigwyddodd o gwbl.

⁴ Daw enghreifftiau (iii) iv) o Gymdeithas Fferylliaeth Frenhinol Cymru: Cyflwyniad i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfraniad fferylliaeth gymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru

- ch) Os unrhyw beth, mae profiad diweddar yn awgrymu fod byrddau iechyd yn ystyried fferylliaeth gymunedol fel targed rhwydd i sicrhau'r arbedion sydd eu hangen i gydbwyso eu cyllidebau. Adlewyrchir hyn yn y nifer o fyrddau iechyd sy'n ystyried dadgomisiynu gwasanaethau ychwanegol megis gwasanaethau atal ysmegu Lefel 3 a gwasanaethau mân anhwylderau.
- d) Yn ychwanegol, ceisiodd byrddau iechyd danseilio prif sylfeini'r contract drwy gyfarwyddo rhoi presgripsiynau am feddyginiaethau generig yn groes i'r cytundeb i hyrwyddo presgripsiynau am gynnyrch generig a chaffael dresins a chynnyrch eraill a gafwyd yn draddodiadol ar bresgripsiwn o fferyllfeydd cymunedol o ffynonellau eraill.
- dd) Yn rhy aml o lawer, mae'r mesurau hyn yn wrthgynhyrchiol ac yn cynhyrchu arbedion gau a all gall effaith niweidiol ar les cleifion a chanlyniadau cleifion. Caiff dwy enghraifft o newid meddyginiaethau eu hamlinellu islaw, y cyntaf yn dangos na wnaeth y newid sicrhau'r arbedion a ddisgwyliid, a'r ail yn dangos y perygl i ddiogelwch cleifion fel canlyniad newid meddyginiaethau i arbed ychydig o geiniogau:

Enghraifft 1:

Mae Prednisolone 5mg yn dabled steroid a roddir yn aml ar bresgripsiwn ac mae ar gael heb orchudd a hefyd gyda gorchudd enterig (ec). Credir y dylai'r math ec gael ei roi i gleifion gyda hanes o broblemau stumog neu gleifion fydd arno am gyfnod hir er mwyn diogelu eu stumogau. Fodd bynnag, heriwyd y ffaith fod y tabled ec yn rhoi mwy o ddiogeliad a chyfarwyddodd un Bwrdd Iechyd mai'r tabledi heb orchudd y dyllid eu defnyddio ac fel canlyniad newidiwyd y presgripsiwn i gleifion.

Roedd cost tabledi prednisolone (heb orchudd) yn £1.12 (Mehefin 2011 DT) a predinsolone ec yn £9.86 (Mehefin 2011, DT), ac felly presgripsiwn pob claf a newidiwyd wedi arbed £8.63 i'r bwrdd iechyd lleol. Disgwyliai'r bwrdd iechyd arbed £75,000 yn 2010/11 yn sgil y newid yn 2010/11.

Fodd bynnag oherwydd prinder stoc ychwanegwyd Prednisolone 5mg i'r rhestr o gyffuriau lle medrir cymeradwyo NCSO. NCSO (Dim Stoc Rhatach ar Gael) yw pan na fedrir cael paratoad yn rhan VIII o'r Tariff Cyffuriau gan y Contractwr ar y pris sylfaenol a restrir a medrir gwneud taliad ar y pris rhestr am y dewis arall). Mae'r pris presennol a gymeradwywyd gan gontractwyr am prednisolone yn awr tua'r un faint ag a delir am y dabled gyda gorchudd enterig, ac felly ni sicrhawyd yr arbedion cost disgwyliedig.

Mae hyn yn enghraifft arall o le nad yw newid yn gweithio a dim ond yn creu datrysiad tymor byr, mae angen defnyddio datrysiadau hirdymor i greu arbedion ar gyfer y byrddau iechyd lleol drwy dargedu gwastraff gyda niwed posibl i gleifion.

Enghraifft 2

Cododd problemau sylweddol yn dilyn newid co-codamol i zapain. Yn ogystal â phroblemau yn cael cyflenwadau o zapain, mae nifer o gleifion wedi methu deall fod zapain yn co-codamol ac wedi bod yn cymryd y ddau neu'n cymryd

paracatemol yn ogystal â zapain, a fedrai brofi'n farwol ac yn sicr arwain at orfod mynd i ysbyty. Mewn achosion eraill, mae cleifion wedi gwrthod cymryd zapain fel canlyniad i fethu deall y newid sydd wedi arwain at fwy o wastraff meddyginiaethau.

- e. Gyda'i gilydd, mae mesurau o'r fath wedi bygwth integriti y contract fferylliaeth gymunedol, lle mae un o'r prif elfennau yw sicrhau gwargedion ar brynu a gaiff eu rhannu gyda'r GIG. Maent hefyd yn tanseilio hyfywedd nifer o fferyllfeydd, yn arbennig fferyllfeydd llai sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig ac amddifadus ar draws Cymru. Yn gynyddol mae'r cwestiwn yn codi am statws byrddau iechyd ac os ydynt yn gyrff annibynnol o lywodraeth neu os ydynt yn asiantau i gyflenwi polisi llywodraeth.

4.3 **Maint y gwasanaethau 'gwell' a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol a pha mor ddigonol ydynt**

- a) Gwasanaethau ychwanegol, „gwell“, yw'r rhai y mae'r Llywodraeth yn cyfarwyddo byrddau iechyd i'w comisiynu gan gontractwyr gydag achrediad. Dim ond dau wasanaeth ychwanegol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd – yr adolygiad defnydd meddyginiaeth a'r gwasanaeth ymyriad presgripsiwn, y cyfeiriwyd atynt yn gynharach, a'r gwasanaeth cyflenwi stoma ac offer anymatalrwydd. Mae gwasanaeth newydd ychwanegol - y gwasanaeth meddyginiaethau yn dilyn rhyddhau o ysbyty - yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

4.4 Potensial fferyllfeydd cymunedol i ddarparu rhagor o wasanaethau ynghyd â dosbarthu meddyginiaethau ac offer y GIG, gan gynnwys y posibilrwydd o gael cynlluniau ar gyfer mân anafiadau.

- a) Mae maniffesto CPW *Iechyd Da - Y Feddyginiaeth Orau ar gyfer Bywydau Iach yng Nghymru* yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu'r gwasanaethau dilynol gan fferyllfeydd cymunedol:
- i) *Cyflwyno gwasanaeth cenedlaethol mân anhwylderau yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;*
 - ii) *Creu rhwydwaith o fferyllfeydd Byw'n Iach yn defnyddio'r rhwydwaith presennol o fferyllfeydd cymunedol;*
 - iii) *Gwneud fferyllfeydd cymunedol yn ganolog i reoli meddyginiaethau yng Nghymru drwy amrediad o wasanaethau wedi eu targedu ar gyfer rheoli meddyginiaethau;*
 - iv) *Cyflwyno gwasanaeth gwastraff meddyginiaethau wedi'i dargedu yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;*
 - v) *Cyflwyno gwasanaeth rheoli cyflyrau cronig yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol,*
 - vi) *Sefydlu gwasanaeth cysoni a chefnogaeth meddyginiaethau yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty i helpu cleifion sy'n trosglwyddo rhwng gosodiadau gofal.*
- b) Amgaeir dogfen maniffesto CPW. Mae'n cynnwys dadleuon manwl am ragoriaeth pob gwasanaeth ac astudiaethau achos yn amlinellu'r manteision a roddodd y gwasanaethau mewn ardaloedd lle cawsant eu comisiynu.

Gwasanaethau Brechiad Ffliw

- c) Derbyniodd cyfarfod yn Ionawr 2011 gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bryd hynny a'r Prif Swyddog Meddygol adroddiad ar y defnydd isel o frechiadau fflw am ddim ymysg grwpiau targed, sef pobl dros 65, pobl dan 65 gyda chyflyrau cronig a menywod beichiog. Dim ond 62% o bobl dros 65 oed o gymharu â'r targed o 70%, 34% o fenywod beichiog iach a 43.7% o gleifion mewn risg dan 65 oed oedd wedi cael brechiad.
- ch) Fel canlyniad gofynnwyd i rai â diddordeb i gyflwyno cynigion i ddarparu gwasanaethau brechiad fflw yn ystod tymor 2011/12. Cyflwynodd CPW gynigion ar ran contractwyr fferylliaeth gymunedol a chynigiwyd cynlluniau peilot mewn ardaloedd o ddefnydd eithriadol o isel yn ardaloedd Byrddau Iechyd Cwm Taf ac Aneurin Bevan. Fodd bynnag, yn dilyn sylwadau gan feddygon teulu na chafodd y cynlluniau

peilot eu cadarnhau tan ar ôl iddynt roi archebion am eu cyflenwadau o frechiadau, dilëwyd cynigion y cynllun peilot.

- d) Y pryder gwirioneddol iawn yw, beth bynnag yw'r rheswm dros y defnydd isel o'r brechiad, mae'n debyg i bobl farw'n ddiangen. Mae dros 700 o fferyllfeydd yng Nghymru. Maent yn gweinyddu presgripsiynau pob un person sydd mewn risg o ddod yn ddifrifol wael o'r fflw. Maent yn eu gweld ac mewn cyswllt â hwy bob mis o'r flwyddyn, nid dim ond pan ddeuant yn wael neu angen adolygiad blynyddol. Maent ar stryd fawr pob tref. Maent ar agor am oriau hir, a benderfynir gan y Bwrdd Iechyd. Maent yn rheoli stociau o gyffuriau, fel brechiadau fflw, fel rhan o'u swyddi bob dydd, heb unrhyw angen i archebu ymlaen llaw neu ddyfalu'r galw tebygol mewn 6 mis. Gwyddant fod yn rhaid iddynt gadw digon o stoc i ateb y galw ond os ydynt yn dal gormod o stoc eu bod yn talu'r pris ei fod yn mynd yn hen, ac felly mae ganddynt drefniadau dosbarthu dwywaith y dydd gyda'u cyflenwyr. Maent yn darparu gwasanaethau yn seiliedig ar gost cyffuriau a ffi am y gwasanaeth. Felly os yw fferyllwyr yn gymwys i ddarparu gwasanaethau brechu fflw, ac y maent, yn effeithiol o ran cost, ac y maent, a'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd mwyaf hygyrch mewn cysylltiad gyda chleifion mewn risg bob mis ac yn cael sgysiau gyda hwy bob mis, ac y maent, pam ar y ddaear na fyddai Byrddau Iechyd yn comisiynu fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth pan y gall pobl mewn risg fod yn marw oherwydd nad yw targedau'r Llywodraeth yn cael eu cyflawni.
- dd) Yn fwy diweddar bu CPW yn cymryd rhan mewn trafodaethau yn ymwneud â'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth brechiadau fflw yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol yn 2012/3.

4.5 Yr effaith gyfredol a'r effaith bosibl ar y galw am wasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau gofal eilaidd y GIG os bydd fferyllfeydd cymunedol yn ehangu eu gwasanaethau, ac unrhyw arbedion cost a allai ddeillio o hynny.

- a) Prif bwyslais polisi iechyd Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi *Gosod y Cyfeiriad* yn Chwefror 2010 fu sicrhau newid sylfaenol mewn cyflenwi gwasanaethau iechyd o'r sector eilaidd i'r sector sylfaenol a chymunedol. Mae cynyddu'r rôl ar gyfer fferylliaeth gymunedol yn hollbwysig i gyflenwi'r prif amcan hwnnw.
- b) Mae fferyllfeydd cymunedol yn eu rôl fel canolfannau iechyd y stryd fawr yn allweddol i annog a chefnogi pobl i arwain ffyrdd iach o fyw. Gall ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol helpu pobl i ddeall y gall ysmegu, gorfwyta, yfed gormodol a chamddefnyddio cyffuriau ddifetha eu bywydau. Gall gwasanaethau atal ysmegu, ymwybyddiaeth alcohol a rheoli pwysau yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw fydd yn eu cadw'n iach yn hirach a gostwng y baich ar y GIG.
- c) Gall gwasanaethau mân anhwylderau yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol helpu i ryddhau amser gwerthfawr meddygon teulu a nyrsys practis i'w roi i ofal pobl fregus sydd eisiau byw adref cyhyd ag sydd modd. Gallai symud y cyfrifoldeb am ddelio gyda mân anhwylderau o feddygfeydd i fferyllfeydd cymunedol ryddhau cymaint â £30 miliwn yng Nghymru i ofalu am bobl wael yn y gymuned. Drwy gyflwyno gwasanaethau megis brechiadau ffliw, chwistrellu clustiau, triniaeth llau pen ac ati drwy fferyllfeydd cymunedol, medrid rhyddhau nyrsys meddygfeydd i wneud ymweliadau gofal yn y cartref i bobl fregus yn eu cartrefi.
- ch) Gall gwasanaethau rheoli cyflyrau cronig a gwasanaethau rheoli meddyginiaethau cysylltiedig yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol helpu pobl i fyw gyda chyflwr a fedrai fel arall olygu bod angen triniaeth claf mewnol mewn ysbyty. Bydd hyn yn gostwng nifer gwelyau ysbyty drud a thriniaethau gofal eilaidd sydd eu hangen i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio.
- d) Bydd rhoi fferyllfeydd cymunedol yng ngofal y rhyfel ar wastraff meddyginiaethau nid yn unig yn sicrhau gostyngiad sylweddol yn faint o feddyginiaethau a wastreffir bob blwyddyn, ond bydd hefyd yn helpu i sicrhau nad yw cleifion ond cael y feddyginiaeth y maent ei hangen a helpu i wneud yn sicr eu bod yn cael y budd mwyaf o'r meddyginiaethau a gymerant.
- dd) Mae maniffesto CPW, a amgaeir fel Atodiad 1, yn rhoi manylion y gwelliannau mewn canlyniadau cleifion y medrir eu cyflawni drwy gomisiynu gwasanaethau seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol ac mae'n amcangyfrif y medrid arbed £95 miliwn bob blwyddyn drwy gyflwyno gwasanaethau mân anhwylderau yn seiliedig mewn

fferyllfeydd cymunedol, gwasanaethau meddyginiaethau yn dilyn rhyddhau o ysbyty, gwasanaethau rheoli meddyginiaethau a gwasanaethau gwastraff meddyginiaethau.

4.6 Y cynnydd a welir o ran y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol

- a) Mae CPW a swyddogion Llywodraeth Cymru'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar hyn o bryd am ystod o wasanaethau posibl i fferyllfeydd cymunedol gyda golwg at eu hymestyn yn ystod tymor presennol Llywodraeth Cymru. Dechreuodd trafodaethau cynnar am gwmpas a gweithredu'r 5 ymrwymiad penodol fferylliaeth gymunedol ym maniffesto etholiadol plaid y Llywodraeth. Dynododd CPW 17 o ymrwymadau maniffesto ychwanegol fydd angen fferyllfeydd cymunedol i weithredu fel un o'i asiantau cyflenwi.
- b) Mae CPW yn gweithio'n effeithiol gyda Phrif Swyddog Fferylliaeth Llywodraeth Cymru a'r Rheolwr Polisi Fferylliaeth rhan-amser. Os yw uchelgais y Llywodraeth ar gyfer fferylliaeth gymunedol i gael ei gwireddu yn ystod tymor y Cynulliad yma, cred CPW y bydd angen i'r tîm fferylliaeth gael ei gefnogi gan adnoddau ychwanegol, yn arbennig os oes rheoliadau cyfunol newydd i gael eu cynhyrchu gyda golwg ar sicrhau contract fferylliaeth gymunedol Cymru.
- c) Dynodwyd y chwe ffrwd waith dilynol ac maent yn yr arfaeth ar hyn o bryd, sef:
- Gwasanaeth uwch newydd - gwasanaeth meddyginiaethau yn dilyn rhyddhau o ysbyty
 - Gwasanaeth brechiad fflw mewn fferyllfeydd cymunedol
 - Gwasanaeth cenedlaethol ychwanegol newydd ar atal ysmegu
 - Gwasanaeth cenedlaethol ychwanegol posibl ar gamddefnyddio sylweddau
 - Ymgyrchoedd cyhoeddus iechyd cyhoeddus
 - Rhaglen Moderneiddio Gyrfaoedd Fferyllfeydd yr Adran Iechyd.
- ch) Mae hefyd 3 maes sylweddol lle byddai cynigion y CPW yn rhoi buddion sylweddol iawn ar gyfer gofal cleifion yng Nghymru a chyllidebau GIG Cymru, sef:
- rhwydwaith o wasanaeth mân anhwylderau Cymru-gyfan fel yr amlinellir uchod;
 - gwastraff targedu gwastraff meddyginiaethau a gynigiodd CPW i Lywodraeth Cymru na dderbyniwyd unrhyw ymateb iddo;
 - Fferyllfeydd Iechyd Da.

5 Casgliadau ac Argymhellion

5.1 Cred CPW y dylai Llywodraeth Cymru:

1. Roi mwy o gyfrifoldeb i fferyllfeydd cymunedol wrth gyflwyno gwasanaethau rheng flaen y GIG, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol yng Nghymru;
2. Cyflwyno gwasanaeth mân anhwylderau cymunedol yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;
3. Creu rhwydwaith newydd o fferyllfeydd Iechyd Da yn defnyddio'r rhwydwaith presennol o fferyllfeydd cymunedol;
4. Gwneud fferyllfeydd cymunedol yn ganolog i reoli meddyginiaethau yng Nghymru drwy amrediad o wasanaethau rheoli meddyginiaethau wedi'u targedu;
5. Cyflwyno gwasanaeth cenedlaethol ar wastraff meddyginiaethau wedi'i dargedu ac yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;
6. Cyflwyno gwasanaeth rheoli cyflyrau cronig yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;
7. Sefydlu gwasanaeth cysoni meddyginiaethau a chefnogaeth yn dilyn rhyddhau o ysbyty a chefnogaeth yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol i helpu cleifion sy'n trosglwyddo rhwng gosodiadau gofal;
8. O leiaf hanner y 6 ymgyrch iechyd cyhoeddus blynyddol i fod yn rhai Cymru-gyfan;
9. Contractwyr o Gymru i gymryd yn rhaglen Moderneiddio Gyrfaoedd Fferylliaeth yr Adran Iechyd;
10. Cynhyrchu rheoliadau cyfun ar fferylliaeth yng Nghymru;
11. Ymestyn yr adnodd i gefnogi fferylliaeth gymunedol o fewn Llywodraeth Cymru;
12. Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth ddifrifol i briodoldeb sefyllfa bresennol contract yng Nghymru.

5.2 Yn y dystiolaeth hon, mae CPW wedi ymchwilio ac arddangos y cyfraniad y gall y rhwydwaith o fferyllfeydd cymunedol ei wneud i'r GIG yng Nghymru. Mae'n nodi sut a pham fod yn rhaid i'r Llywodraeth gynyddu rôl fferyllfeydd cymunedol wrth gyflwyno gwasanaethau GIG o ddydd i ddydd yng Nghymru. Mae'n dynodi'r camau y medrai'r Llywodraeth eu cymryd i gyflawni'r amcan a rannir o gynyddu'r defnydd i'r eithaf o'r stad fferyllfeydd cymunedol a'r ased sydd eisoes yn bodoli ar bob stryd fawr ac ym mhob cymuned. Mae'n cynnwys 12 argymhelliad allweddol fydd yn rhoi uchelgais ar waith ac yn

arwain at y gwelliannau yn iechyd a lles pobl Cymru y mae pawb ohonom yn dymuno eu gweld. Mae ethol y pedwerydd Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi'r man dechrau ar gyfer cyfnod newydd cyffrous ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru ac mae fferylliaeth gymunedol yn awyddus i chwarae rôl sylweddol wrth gyflenwi'r rhaglen sydd ei hangen i gyflawni hynny.

- 5.3 Mae CPW yn fodlon i'r ymateb hwn fod ar gael i'r cyhoedd, i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor os oes angen a hoffai dderbyn copi o unrhyw bapurau ac adroddiadau perthnasol y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eu cynhyrchu fel rhan o'r Ymchwiliad hwn.

I gael mwy o wybodaeth:

Russell Goodway,

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

2 Caspian Point

Caspian Way

CAERDYDD

CF10 4DQ

E-bost: russell.goodway@cpwales.org.uk

Atodiad 1:

Iechyd Da. Y Feddyginiaeth Orau ar gyfer Bywydau Iach yng Nghymru. Maniffesto Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar gyfer etholiadau 2011 y Cynulliad Cenedlaethol

Atodiad 2

Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar yr ymgyrch Iechyd Cyhoeddus Cymru-gyfan gyntaf mewn fferyllfeydd cymunedol

Iechyd Da

Fferylliaeth Gymunedol:
Y Feddyginiaeth Orau ar gyfer Bywydau Iach yng Nghymru.



Community
Pharmacy Wales
Fferylliaeth
Gymunedol Cymru

*Maniffesto Fferylliaeth
Gymunedol ar gyfer Etholiadau
2011 y Cynulliad Cenedlaethol*



Community
Pharmacy Wales
Fferylliaeth
Gymunedol Cymru

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Caiff Fferylliaeth Gymunedol Cymru ei gydnabod yn Neddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel yr unig sefydliad sy'n gyfrifol am gynrychioli pob un o'r 707 fferyllfa gymunedol yng Nghymru ar bob mater yn gysylltiedig â gwasanaethau fferyllfa GIG.

Fferylliaeth Gymunedol Cymru yw'r unig sefydliad sy'n cynrychioli pob fferyllfa gymunedol yng Nghymru. Mae'n gweithio gyda Llywodraeth a'i hasiantaethau, megis y Byrddau Iechyd Lleol, i helpu i ddiogelu a datblygu gwasanaethau fferyllfa gymunedol ansawdd uchel ac i lunio contract fferylliaeth gymunedol y GIG a'i rheoliadau cysylltiedig er mwyn sicrhau'r safonau uchaf o iechyd y cyhoedd a'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n swyddfa yn:

Fferyllfa Gymunedol Cymru
2 Caspian Point
Caspian Way
CAERDYDD
CF10 4DQ

ffôn : 029 2044 2070 (Llun - Gwener 9.00 am i 5.00 pm)
e-bost : info@cpwales.org.uk
gwefan : www.cpwales.org.uk

Bwrdd Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Ian Cowan, Cadeirydd
Chris James, Is-gadeirydd

Etholwyd gan Fferyllfeydd Cymunedol Annibynnol yng Nghymru

Raj Aggarwal OBE	R K Aggarwal Cyf, Caerdydd
Steve Davies	A & J M Sheppard Cyf, Castell Nedd
Chris James	Walter Lloyd & Son Cyf, Caerfyrddin
Gwyn Morris	G & E J Morris Cyf, Pen-y-bont ar Ogwr
Gerald Thomas	Vittoria Healthcare Cyf, Wrecsam
Tim Williams	Fferyllfa Ffordd Elan, Y Rhyl

Enwebwyd gan Fwrdd Rheoli Cymru Cymdeithas Fferyllwyr Cwmni

Liz Colling	The Co-operative Pharmacy
Ian Cowan	L Rowlands & Co Cyf
Marc Donovan	Boots UK Cyf
Peter Jones	Boots UK Cyf
Andy Murdock	Lloyds Pharmacies Cyf
Steve Ridd	Lloyds Pharmacies Cyf

Cynrychiolydd Cymru ar Bwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol:

Mark Griffiths T D Owen & M Griffiths

Prif Weithredwr:

Russell Goodway

Cyflwyniad

Mae'r Maniffesto hwn yn dadlau am rôl gryfach a mwy rhagweithiol i fferyllfeydd cymunedol fel darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng-flaen yng Nghymru. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn credu na wneir defnydd digonol o'r sgiliau, profiad a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y 707 fferyllfa gymunedol yng Nghymru ac y dylent gael eu defnyddio'n fwy helaeth er budd pobl Cymru. Bydd fferyllfeydd cymunedol yn rhan hollbwysig o sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol modern, cost-effeithiol, addas-i'r-diben a gaiff eu gyrru gan ganlyniadau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn rhannu llawer o'n nodau. Mae Llywodraeth Cymru yn iawn i bwysleisio'r angen i sicrhau newid sylfaenol ym meddylfryd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o drin salwch i'w atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Bydd angen cyflenwi effeithiol ac amserol i gyflawni'r uchelgais hwnnw ynghyd ag ymrwymiad penderfynol i wasanaethau cymunedol dan arweiniad cleifion a gynlluniwyd i wella iechyd a lles y bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith o fferyllfeydd cymunedol - rhwydwaith Iechyd Da seiliedig yn y gymuned - yn sylfaenol i gyflawni'r canlyniad hwnnw.

Geilw'r maniffesto hwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2011 i wneud yr ymrwymiad hwnnw ac mae'n amlinellu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r nod honno.

“ Bydd fferyllfeydd cymunedol yn rhan hollbwysig o sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol modern, cost-effeithiol, addas-i'r-diben a gaiff eu gyrru gan ganlyniadau yng Nghymru. ”



Chwe rheswm allweddol pam y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi Fferylliaeth Gymunedol

1 Perthynas Gydol Oes

P'un ai yw'ch bywyd yn hir neu'n fyr a ph'un ydych yn ifanc neu'n hen, gyda salwch cronig neu ymhlith yr iach pryderus, drwy gydol eich oes bydd ymyriad amserol eich fferylllydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'ch iechyd a'ch lles.

2 Arbenigwyr Meddyginiaethau, Gweithwyr Proffesiynol Dibynadwy

Pan ddaw i feddyginiaethau, fferyllwyr yw'r arbenigwyr. Gwyddant sut mae meddyginiaethau'n gweithio, pryd i'w cymryd a sut y dylid eu defnyddio. Mae fferyllwyr cymunedol yn weithwyr proffesiynol gofal iechyd sydd â llawer iawn o hyfforddiant a chymwysterau clinigol sy'n cyfrif ymysg y gweithwyr proffesiynol mwyaf y mae'r cyhoedd yn ymddiried mwyaf ynddynt ac yn dibynnu arnynt fwyaf.

3 Y Ganolfan Iechyd ar bob Stryd Fawr

Mae'r rhwydwaith yma o weithwyr proffesiynol gofal iechyd gyda chymwysterau proffesiynol yn derbyn dros 35 miliwn ymweliad y flwyddyn ac mae ar gael drwy 707 safle ar bob Stryd Fawr yng Nghymru, y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt 7 diwrnod yr wythnos heb fod angen apwyntiad.

4 Ased Iechyd Cenedlaethol Hygyrch

Mae'r stad gofal iechyd yn cynnwys mwy na'r adeiladau y mae'r GIG yn berchen arnynt. Mae'n cynnwys y safleoedd hynny lle caiff gwasanaethau gofal iechyd pwysig eu darparu. Medrir cyflawni potensial yr elfen hon o stad gofal iechyd y genedl heb fod angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd nac addasiadau sylweddol i reoliadau presennol ac, yn fwy na hynny, heb fod angen unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn eiddo tiriog, dim arian newydd yn gyffredinol a medrir ei gyflawni heb ymyrryd yn sylweddol ar wasanaethau presennol.



5 Deinamos Economaidd

Mae Fferyllfeydd Cymunedol yng Nghymru yn darparu dros 5000 o swyddi ansawdd uchel ar gyflogau da i bobl mewn busnesau lleol sy'n hanfodol i bentrefi a chymunedau gwledig, sy'n asgwrn cefn llawer o ganolfannau siopa lleol ac yn angor marchnadfeydd canol dinasoedd. Yn unigol a gyda'i gilydd, maent yn ddeinamo economaidd ar gyfer economïau lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

6 Partner Cost-effeithiol

Er bod fferyllfeydd cymunedol yn derbyn ffioedd a lwfansau am y gwasanaethau penodol a ddarparant i'r GIG, maent hefyd yn cyfrannu arian i'r GIG gan ei gwneud yn bartneriaeth unigryw cyhoeddus-preifat o fudd i'r holl system genedlaethol gofal iechyd.

Hefyd, y Naw Deg Pump o Filiynau o Resymau dilynol dros wneud hynny ...

Rheoli Meddyginiaethau

Datgelodd astudiaeth gan Brifysgol Llundain fod 70% o breswylwyr cartrefi gofal wedi dioddef o leiaf un camgymeriad cyffuriau. Dangoswyd fod rhoi rhan i fferyllwyr cymunedol mewn cartrefi gofal yn gostwng y camgymeriadau hyn. Dangosodd ymchwil ychwanegol fod rhwng 30% a 50% o gleifion eraill yn methu cymryd eu meddyginiaeth yn gywir neu fel arall heb gydymffurfio gyda'r drefn feddyginiaeth a nodwyd ar eu cyfer. Mae hyn yn aml yn arwain at dderbyniadau diangen i ysbytai ac ymryiadau eraill, sy'n costio bron **£10 miliwn** y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.

ARBED £10 MILIWN

Mân Anhwylderau

Pe bai eu fferylllydd, yn hytrach na'u meddyg teulu, yn gweld cleifion gyda mân anhwylderau, yna efallai y medrid arbed **£30 miliwn** i GIG Cymru bob blwyddyn.

ARBED £30 MILIWN

Arbenigwyr ar Ryddhau Cleifion o Ysbytai

Dangosodd ymchwil ddiweddar fod gwybodaeth ar ryddhau cleifion o ysbytai yn wael, gyda 25% o lythyrau rhyddhau o ysbyty heb fod yn cyrraedd meddyg teulu'r claf a 38% o achosion aildderbyn i ysbyty yn ymwneud â meddyginiaeth, gyda 61% ohonynt yn ataliadwy. Medrai gwasanaeth cysoni meddyginiaeth pan gaiff cleifion eu rhyddhau o ysbyty arbed mwy na **£5 miliwn** y flwyddyn i'r GIG mewn gwasanaethau gofal eilaidd diangen.

ARBED £5 MILIWN

Gwastraff Meddyginiaethau

Mae sgandal meddyginiaethau y rhoddir presgripsiwn amdanynt ond na chânt eu cymryd yn costio bron **£50 miliwn** y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru. Byddai Gwasanaeth Gwastraff Meddyginiaethau a Dargedir yn gostwng yn sylweddol faint o feddyginiaethau a wastreffir.

ARBED £50 MILIWN



Iechyd Cymru

Poblogaeth Gynyddol Soffistigedig

Mae bron 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd ac wrth i'r wlad wynebu heriau'r dyfodol, bydd cyfansoddiad y boblogaeth yn pennu beth yw anghenion iechyd y genedl.

Mae cynnydd mewn mynediad i'r rhyngwrwyd a mwy o eitemau yn ymwneud â iechyd ar y cyfryngau darlledu, yn ogystal â chynlluniau ymwybyddiaeth iechyd a noddir gan y Llywodraeth, yn golygu nad yw'n syndod fod y boblogaeth yn dod yn gynyddol wybodus a soffistigedig am ddatrysiadau iechyd a'u hopsiynau gofal iechyd eu hunain. Fel canlyniad, bydd yr hyn a elwir yn "iach pryderus" yn anochel yn gosod gofynion cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y rhan fwyaf maes o law yn cymryd meddyginiaeth neu'n derbyn gwasanaethau sy'n ymwneud â meddyginiaeth.

Henaint ni ddaw ei Hunan

Am chwarter canrif neu fwy, mae'r gyfran o bobl hŷn yng Nghymru wedi cynyddu'n gyson a, gyda chyfraddau geni'n gostwng, bydd yn parhau i wneud hynny. Mae ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awgrymu fod y gyfran o'r boblogaeth dros 60 oed yn cyfrif am un ym mhob pedwar o bobl yng Nghymru. Awgrymant y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu gan 3% dros yr 20 mlynedd nesaf ond eto y bydd nifer y bobl o oedran ymdeol yn cynyddu gan 11%. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl y bydd nifer y bobl 85 oed a throsodd yn cynyddu gan fwy na thraean i 82,000.¹

Bydd y dywediad "henaint na ddaw ei hunan" bron yn sicr yn wir yng Nghymru. Mae gan bob plaid wleidyddol ymrwymiad i wella safonau gofal iechyd a rhoi mynediad cyfartal i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Mae consensws trawsbleidiol am yr angen i sicrhau, fel y mae pobl yn heneiddio, eu bod yn cael yr help y maent angen i "fwynhau iechyd a lles ac annibyniaeth wrth heneiddio, am gyhyd ag y bo modd, a chael triniaeth a chymorth prydlon, di-fwlch o ansawdd da pan fo angen."²

Wrth i ni heneiddio disgwyliwn ddiodeff mwy o golli'r gallu i symud, golwg a chlyw yn ogystal ag anabledau a chyflyrau cronig eraill. I ryw raddau, bydd y rhan fwyaf o bobl hŷn yn dod i ddibynnu ar feddyginiaeth i'w helpu i ohirio dyfodiad neu ymlediad y cyflyrau hynny a'u helpu i fyw gyda hwy. Mae triniaethau anghywir neu gamreoli meddyginiaethau yn aml yn arwain at golli annibyniaeth ond, o'i reoli'n iawn, gall meddyginiaethau sicrhau nad yw rhai cyflyrau'n dod yn faich ar naill y claf na GIG Cymru, gan danlinellu rôl hanfodol y fferylllydd cymunedol wrth gadw iechyd a ffyniant.

¹ Iechyd Cyhoeddus Cymru

² Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

Plant a Phobl Ifanc

Yn ôl y Llywodraeth, plant a phobl ifanc yw rhai 0-24 oed. Maent yn ffurfio ychydig dros 30% o boblogaeth Cymru. Dengys ymchwil y caiff sylfeini hollbwysig iechyd oedolion eu gosod mewn bywyd cyn genedigaeth ac yn ystod plentyndod cynnar. Mae cysylltiad cryf rhwng anghydraddoldeb plentyndod mewn iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol â risg uwch gydol oes o iechyd corfforol a meddyliol gwael fel oedolion. Ni fedrir gorbwysleisio hybu a diogelu iechyd plant a phobl ifanc yn nhermau atal afiechyd a/neu anfantais gymdeithasol yn yr hirdymor. Bydd rhoi mynediad i'r feddyginiaeth gywir yn ogystal â chyngor ar fyw'n iach yn hollbwysig i'w datblygiad.

Pa rwydwaith arall o weithwyr proffesiynol gofal iechyd gyda chymwysterau clinigol sydd ar gael drwy 707 Canolfan Iechyd ar bob Stryd Fawr yng Nghymru y gall y cyhoedd gael mynediad iddo 7 diwrnod yr wythnos heb fod angen apwyntiad?

Pam Fferylliaeth Gymunedol?

Mae'n rhaid i Fferylliaeth Gymunedol fod â rôl hollbwysig os yw Cymru i fynd i'r afael yn llwyddiannus â heriau iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol. Mae fferyllfeydd cymunedol Cymru yn derbyn dros 35 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae pob un ohonynt yn rhoi mynediad rhwydd i o leiaf un gweithiwr proffesiynol gofal iechyd cymwys. Hwy yw'r Ganolfan Iechyd ar bob Stryd Fawr. Mae eu cwsmeriaid a'u cleifion yn ymddiried ynddynt ac yn dibynnu arnynt. Hyd yn oed yn fwy na hynny, fferyllwyr yw'r arbenigwyr pan ddaw i feddyginiaethau. Maent yn gymwys i roi cyngor a chefnogaeth ac i ddarparu llawer o'r gwasanaethau gofal iechyd y mae pobl eu hangen.

Pa rwydwaith arall o weithwyr proffesiynol gofal iechyd gyda chymwysterau clinigol sydd ar gael drwy 707 Canolfan Iechyd ar bob Stryd Fawr yng Nghymru y gall y cyhoedd gael mynediad iddo 7 diwrnod yr wythnos heb fod angen apwyntiad? Mae'r Llywodraeth yn wirioneddol colli cyfle pan ymddengys yn amharod i fanteisio i'r eithaf ar botensial y rwydwaith gofal iechyd presennol ac anhygoel o soffistigedig yma. Mae angen i'r Llywodraeth "chwysu" holl asedau Cymru, er budd ei phobl. Nid yw'r rwydwaith fferylliaeth gymunedol yn ddim eithriad. Gyda'i ymroddiad i wasanaethu'r cyhoedd, gall potensial yr elfen hon o stad gofal iechyd y genedl gael ei chyflawni heb yr angen am unrhyw ddeddfwriaeth newydd neu addasiadau sylweddol i reoliadau presennol ac, yn fwy na hynny, ni fydd yn galw am unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn eiddo tiriog, dim arian newydd yn gyffredinol a medrir ei gyflawni heb unrhyw ymyrryd sylweddol ar wasanaethau presennol.

Saith Cam Syml y dylai Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2011 eu cymryd i adeiladu Cymru Iachach:

1

Rhoi mwy o gyfrifoldeb i fferyllfeydd cymunedol wrth ddarparu gwasanaethau rheng-flaen y GIG, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol yng Nghymru;



2

Cyflwyno **Gwasanaeth Cenedlaethol Mân Anhwylderau** yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol;

3

Creu rhwydwaith o **Fferyllfeydd Byw'n Iach** yn defnyddio'r rhwydwaith presennol o fferyllfeydd cymunedol;

4

Gwneud fferylliaeth gymunedol yn ganolog i reoli meddyginiaethau yng Nghymru drwy amrediad o **Wasanaethau Rheoli Meddyginiaethau** wedi'u targedu.



5

Cyflwyno gwasanaeth **Gwastraff Meddyginiaethau** cenedlaethol wedi'i dargedu mewn fferyllfeydd cymunedol;

6

Cyflwyno **Gwasanaeth Rheolaeth Cyflyrau Cronig** mewn fferyllfeydd cymunedol;

7

Sefydlu **Gwasanaeth Cysoni a Chefnogaeth Meddyginiaethau Rhyddhau Cleifion o Ysbytai** i helpu cleientiaid sy'n trosglwyddo rhwng gosodiadau gofal.



Yn nhermau atal afiechyd a/neu anfantais gymdeithasol yn yr hirdymor, ni fedrir gorbwysleisio hyrwyddo a diogelu hawl a ffyniant plant a phobl ifanc.



Yr Achos dros Fferylliaeth Gymunedol

Perthynas Gydol Oes

P'un yw'ch bywyd yn hir neu'n fyr a ph'un ai ydych yn ifanc neu'n hen, gyda salwch cronig neu'n ymhlith yr iach pryderus, drwy gydol eich bywyd bydd ymyriad amserol eich fferylllydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'ch iechyd a'ch ffyniant. Mae sgiliau a phrofiad dibynadwy eich fferylllydd yn ddylanwadau hollbwysig yn ystod y penodau mwyaf critigol a gofidus sy'n ein hwynebu i gyd ar hyd taith bywyd.

Sgiliau ac Arbenigedd Unigryw

Am rhy hir, mae gormod wedi ystyried y GIG yng Nghymru yn unig fel gwasanaeth meddygon a nyrsys. Mewn gwirionedd, mae'n wasanaeth aml-ddisgyblaeth sydd yn mynd ymhell tu hwnt i ddau broffesiwn meddygol.³ Drwy eu sgiliau unigryw ac arbenigedd proffesiynol mae fferyllwyr cymunedol yn ddarparwyr rheng-flaen cynyddol bwysig yn y GIG modern fel arbenigwyr yn y defnydd gorau o feddyginiaethau a hefyd fel ymgyrchwyr ac addysgwyr gofal sylfaenol. Mae gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru ymrwymiad i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl cynyddol bwysig hon sy'n datblygu'n gyson.

Mewn Cytgord gyda Blaenoriaethau Presennol

Fel rhan o'n gwaith hanfodol, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru. Bu'n galonogol iawn i ddysgu, yn ddiethriad, y gall a bod yn rhaid i fferylliaeth gymunedol chwarae rôl hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau ychwanegol rheng-flaen y GIG. Ond nid yw dealltwriaeth yn ddigon ar ei ben ei hun. Yr hyn mae Cymru ei angen nawr yw gweithredu i gyflawni. Mae'r maniffesto yma'n amlinellu'r camau y credwn fod angen i'r Llywodraeth eu cymryd i sicrhau gwelliannau mewn iechyd cyhoeddus a gwell canlyniadau cleifion na all yn ein barn ni ond cael eu cyflawni drwy wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith fferylliaeth gymunedol.

Darparwyr Ystod Helaeth o Wasanaethau Safon Uchel

Mae Fferyllfa Byw'n lach yn y gymuned yn rhoi mwy na rhes o wasanaethau. Mae'n fan lle mae'r cyhoedd yn teimlo eu bod yn cael cyngor ansawdd uchel, cymorth dibynadwy a chyson a mynediad i weithiwr proffesiynol gofal iechyd gyda chymwysterau uchel pryd bynnag y maent angen.

Mae rhai fferyllfeydd eisoes yn cynnig gwasanaethau a wneir yn draddodiadol mewn clinigau cleifion allanol, megis profion gwaed ar gyfer cleifion ar warfarin, sy'n fwy effeithlon o ran cost i'r GIG ac yn fwy cyfleus i'r claf.

Gweithwyr Proffesiynol wedi'u Hyfforddi'n Dda a gyda Chymwysterau Clinigol

Dim ond ar ôl rhaglen hyfforddiant pedair blynedd drwyadl mewn prifysgol a ddilynir gan flwyddyn gyfan o hyfforddiant cyn-cofrestru dan oruchwyliaeth y gall fferyllwyr cymunedol ymarfer. Mae'n ofynnol iddynt hefyd ddilyn

rhaglen orfodol o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar hyd eu gyrfaedd. Maent felly'n weithwyr proffesiynol gofal iechyd cymwys iawn a all roi ystod eang o wasanaethau rheng-flaen sy'n mynd tu hwnt i ddosbarthu meddyginiaeth sylfaenol, er mor bwysig yw hynny i gleifion.

Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd Dibynadwy

Dangosodd ymchwil yn y Deyrnas Unedig ac o amgylch y byd fod fferyllwyr cymunedol yn cael eu hystyried ymysg y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd mwyaf y mae'r cyhoedd yn ymddiried mwyaf ynddynt ac yn dibynnu mwyaf arnynt – anrhydedd haeddiannol yn ganlyniad i'w hymroddiad i ofal cleifion a pherfformiad cyson manwl gywir. Dylai'r Llywodraeth eu rhoi yn y rheng flaen wrth fynd i'r afael â llawer o heriau heddiw o sgandal miliynau lawer o bunnau y meddyginiaethau a wastreffir yn y frwydr yn erbyn afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol.

Sbardunau Pwysig Economiâu Lleol

Mae Fferyllfeydd Cymunedol yng Nghymru yn darparu dros 5000 o swyddi safon uchel wedi'u hyfforddi'n dda ac ar gyflog da mewn busnesau lleol sy'n hanfodol i bentrefi a chymunedau gwledig, asgwrn cefn llawer o ganolfannau siopau lleol ac angor marchnadfeydd canol dinas. Maent yn rhwydwaith o ddeinamos economaidd ar draws Cymru. Yn unigol a gyda'i gilydd, maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i economiâu lleol a rhanbarthol.

Ymateb i Anghenion Pobl

Fel busnesau, maent yn reddfodol yn fwy hygyrch, hyblyg ac ymatebol. Bydd fferyllfeydd cymunedol yn agos at orsafoedd trenau neu fysus yn sicr yn agored i wasanaethu anghenion pobl yn teithio i'r gwaith a'r cyhoedd. Mae fferyllfeydd cymunedol yng nghanol trefi a dinasoedd neu ar barciau manwerthu ar agor saith diwrnod yr wythnos i wneud yn sicr eu bod yn diwallu anghenion cleifion a chwsmeriaid. Lle maent yn agos at feddygfa, bydd eu horiau yn aml yn cyddaro gyda rhai'r feddygfa. Mewn geiriau eraill, mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu yng nghalon y gymuned ac eto'n darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl sy'n aml yr anoddaf eu cyrraedd ond sydd ei angen fwyaf. Mae Fferylliaeth Gymunedol yn rhwydwaith gwasanaeth dan arweiniad cleifion sydd yng nghymdeithas anodd 24/7 heddiw yr unig rwydwaith gofal iechyd proffesiynol sy'n hygyrch lle bynnag y mae pobl yn byw, gweithio neu deithio.

Partner Parod

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru nesaf, fel yr un bresennol, yn cael Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn bartner parod yn ei hymdrech i wella iechyd cyhoeddus ac rydym yn parhau â'n hymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau fod y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol yn ymateb yn gadarnhaol i'r alwad.

³The Bow Group: Delivering Enhanced Pharmacy Services in a Modern NHS

Pam y Saith Cam yma?

Mân Anhwylderau

Pethau fel peswch ac anwyd, dolur rhydd a phigyn clust, clwyr gwair a bola tost, llau pen a dafadennau sy'n ein hwynebu wrth i ni fynd o amgylch ein bywyd bob dydd. Mae troed y campwr, cur pen, diffyg traul a dolur gwddf yn rhan o'r pris y mae'n rhaid i ni gyd ei dalu o bryd i'w gilydd dim ond am fyw. Nid yw pobl gyda'r cyflyrau hyn o reidrwydd yn "sâl" ond yn hytrach "ddim yn teimlo'n rhy dda" neu'n dioddef o sgil effeithiau annifyr cysylltiad cymdeithasol beunyddiol. A ddylai mewn gwirionedd fod angen iddynt gael apwyntiad i ymweld â'u meddyg teulu i gael remedi sydd ar gael yn rhwydd gan y fferylllydd lleol? Ymddengys yn hurt fod yn rhaid iddynt sefyll wrth y ffôn am 8.00 am a ffonio dro ar ôl tro i drefnu apwyntiad mewn meddygfa dim ond i gael darn o bapur y mae'n rhaid iddynt fynd ag ef i'r fferyllfa leol wedyn beth bynnag. Mae hyd yn oed yn fwy diflas ac yn ymyrryd mwy ar drefn bob dydd os yw'n rhaid cymryd amser i fwrdd o'r gwaith neu fynd â plentyn o'r ysgol er mwyn cadw'r apwyntiad.

Yng Nghymru amcangyfrifir fod 5 miliwn o ymgynghoriadau meddyg teulu bob blwyddyn yn ymwneud â man anhwylderau y medrid eu trin mewn fferyllfa. Amcangyfrifir fod pob meddyg teulu yng Nghymru yn treulio awr bob dydd yn trin mân anhwylderau neu gyflyrau hunan-gyfngol. Daeth adolygiad annibynnol i'r casgliad y medrai bron 40% o'r ymgynghoriadau hyn fod wedi eu trin yn fwy na digonol mewn fferyllfa gymunedol. Mae cost gyfartalog ymgynghoriad meddyg teulu yn £32 o gymharu â chost ymgynghoriad fferyllfa o £17.75. Mae hynny'n arbediad o £14.25.⁴ Pe bai fferylllydd yn hytrach na meddyg teulu yn gweld cleifion gyda mân anhwylderau, yna medrid efallai arbed £30 miliwn i GIG Cymru bob blwyddyn.

Yng Nghymru amcangyfrifir fod 5 miliwn o ymgynghoriadau meddyg teulu bob blwyddyn yn ymwneud â mân anhwylderau y medrid eu trin mewn fferyllfa.



Byddai **Gwasanaeth Cenedlaethol Mân Anhwylderau** seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol yn gostwng y pwysau ar feddyg teulu ac ar yr un pryd yn gwella mynediad a dewis i'w cleifion a, gyda dros ddau-draean o absenoldeb salwch o'r gwaith yn ganlyniad y mân anhwylderau hyn, byddai ganddo fanteision pellgyrhaeddol ar gyfer economi Cymru yn gyfangwbl.

⁴ The Bow Group: Delivering Enhanced Pharmacy Services in a Modern NHS

Fferylliaeth Gymunedol ar waith...

Yn **Nhorfaen** yn 2006, arloesodd y cyn Fwrdd Iechyd Lleol gyda wasanaeth mân anhwylderau lle gall pobl ymweld â'u fferyllfa leol i gael cyngor a thriniaeth yn rhad ac am ddim. Gwelir llwyddiant y cynllun drwy'r ffaith i 752 o bobl dderbyn ymgynghoriad mân anhwylderau mewn un fferyllfa yn unig yng Nghwmbrian yn 2009/10, gan ryddhau 125 awr o amser meddyg teulu lleol ac arbed tua £10,800 i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Yn y **Ffindir**, gwlad ychydig dan ddwywaith maint Cymru, mae'n arferol i bobl ymgynghori â'u fferylllydd cymunedol yn hytrach na'u meddyg teulu. Drwy roi fferylliaeth gymunedol ar y rheng flaen, dengys ymchwil



annibynnol fod Ffindir wedi manteisio o 6.2 miliwn yn llai o ymgynghoriadau meddyg teulu, 2.6 miliwn yn llai o bresgripsiynau a 750,000 yn llai o ymweliadau i adrannau Damweiniau ac Argyfwng. Mae hyn wedi sicrhau arbediad yn gyfwerth â £450 miliwn i'r gwasanaeth iechyd.

Yn yr **Alban**, mae'r **Gwasanaeth Cenedlaethol Mân Anhwylderau** yn galluogi pobl i fynd i'w fferyllfa gymunedol fel y man galw cyntaf ar gyfer ymgynghori a thrin cyflwr cyffredinol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol heb fod angen ymweld â meddyg teulu. Mae'r gwasanaeth yma'n cyflenwi tua 3 miliwn o eitemau bob blwyddyn gan wneud triniaeth yn fwy cyfleus a chyflym a galluogi meddyg teulu yr Alban i roi mwy o amser i gleifion gyda chyflyrau mwy difrifol.

Ymladd Salwch yn gysylltiedig â Ffordd o Fyw

Mae Fferylliaeth Gymunedol yn ganolog i gyflawni agenda Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gallu'r GIG i ymdopi gyda gofynion y dyfodol ar ei adnoddau yn ddiabynnol iawn ar allu'r Llywodraeth i fynd i'r afael â chlefydau a salwch yn gysylltiedig â dewisiadau ffordd o fyw. Mae newid arferion oes yn her galed i unrhyw un. Ymddygiad caethiwus yw'r anoddaf o'r cyfan i'w oresgyn.

Mae'n broblem ar draws y Deyrnas Unedig, ond profodd Cymru rai o'r cyfraddau gwaethaf o gamdrin alcohol dros y degawd diwethaf gyda chynnydd cysylltiedig yn nifer y derbyniadau i ysbyty a marwolaethau oherwydd gwenwyno gan alcohol. Er trefn dreth gosbol a deddwriaeth i wahardd ysmegu mewn manau cyhoeddus, mae clefydau yn gysylltiedig ag ysmegu'n parhau i hawlio miloedd o fywydau bob blwyddyn. Os yw Cymru o ddifrif am ostwng y lefelau ysmegu o 24% o'r boblogaeth, i fod yn debyg i wledydd fel Sweden sydd â'r cyfraddau isaf yn y byd (14%), yna mae gwasanaeth cenedlaethol yn seiliedig ar fferyllfeydd cymunedol i atal ysmegu yn hanfodol.⁵ Mae gan Gymru rai o'r cyfraddau gordewdra uchaf yn Ewrop gan arwain at glefydau megis diabetes, canser a chlefyd y galon. Rhyngddynt maent yn rhoi baich ariannol trwm ar GIG Cymru.

Mae Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod yr angen i "ail-gydbwysu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o blaid ataliaeth ac ymyriad cynnar". I gyflawni'r amcan hwnnw, mae angen i Gymru fel mater o frys sicrhau rhwydwaith effeithiol o Fferyllfeydd Byw'n Iach i helpu pobl i herio diwyllianau a ffordd o fyw sydd wedi ymsefydlu a newid eu harferion. Mae Fferyllfeydd Cymunedol mewn lle arbennig o dda i gyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd ac i weithio gyda hwy i fynd i'r afael â'r heriau hynny.



Gyda 35 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn, fferyllfeydd cymunedol yw'r sanel fwyaf effeithiol sydd ar gael i gyflwyno negeseuon iechyd cyhoeddus. Medrai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau newid sylweddol yn ymddygiad pobl yn syml drwy newid ffocws cyflenwi ei gwasanaethau iechyd cyhoeddus i fferyllfeydd cymunedol ac mae darpariaeth eisoes ar gael ar eu cyfer yn y contract fferyllfa gymunedol. Fel rhan o agenda integredig GIG/Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai'r Llywodraeth weithredu i sicrhau fod asesiadau risg fasgwlar llawn, cyngor a chefnogaeth i atal ysmegu, helpu i ostwng y defnydd o alcohol a chymorth i reoli eu pwysau, ar gael ym mhob fferyllfa gymunedol gan wneud mynediad i'r gwasanaethau hyn mor rhwydd â mynd i'r siopau.

Byddai rhwydwaith o 707 o **Fferyllfeydd Byw'n Iach** fel sanel ar gyfer ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus trefnus ac yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau sy'n anelu i newid ffyrdd o fyw a gwella iechyd cyhoeddus yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni targedau'r Llywodraeth.

⁵ The Bow Group: Delivering Enhanced Pharmacy Services in a Modern NHS

Fferylliaeth Gymunedol ar waith...

Yng Ngogledd Cymru, mewn un cyfnod o ddeuddeg mis, derbyniodd 4,000 o bobl gymorth gan fferyllfeydd cymunedol i atal ysmegu. Cadarnhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yr holl gyfraddau a adroddwyd gan bobl am gyfraddau atal ysmegu (44.8%) o fewn targedau cyfradd llwyddiant disgwylidig y Sefydliad Cenedlaethol Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) gan danlinellu effeithlonrwydd y gwasanaeth mewn cymorthfeydd cymunedol o gymharu gyda darparwyr eraill.

Yn yr Alban, mae gwasanaeth cenedlaethol atal ysmegu yn seiliedig mewn fferyllfeydd cymunedol wedi dyblu hygyrchedd ymyriadau atal ysmegu mewn gofal sylfaenol.



Yn Portsmouth, cafodd rhethreg ei droi'n realaeth drwy greu 'Fferyllfeydd Byw'n Iach', bob un gyda'i Hyrwyddwr Hyfforddi Iechyd a phob fferyllfa yn rhoi cefnogaeth ar reoli pwysau ac atal ysmegu, yn ogystal â phroffion am ddim ar bwysau gwaed ac ystod cynhwysfawr o gyngor iechyd. Yn ychwanegol, cymerodd mwy na 3,500 o bobl ran mewn ymarferiad diweddar i ostwng y defnydd o alcohol.

Yn Ne Birmingham, dynododd gwasanaeth 'MOT calon' a gyflwynwyd drwy 24 fferyllfa gymunedol risg afiechyd fasgwlar a rhoi ystod lawn o gyngor a chefnogaeth gyda 28% o'r bobl a aseswyd – 82% ohonynt yn ddyinion - yn cael eu cyfeirio at eu meddyg teulu.

Yn Coventry, arweiniodd Gwasanaeth Rheoli Gordewdra mewn fferyllfeydd cymunedol at i 68% o gleientiaid golli pwysau a 72% yn gweld gostyngiad mewn mesuriadau gwasg.

Rheoli Meddyginiaethau

Ychydig ohonom fydd yn mwynhau bywyd yn rhydd o feddyginiaethau. Dyna pam fod meddyginiaethau a rheolaeth gywir ohonynt yn hollbwysig i GIG craff, modern ac addas i'r diben. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisioes yn gwario tua £600 miliwn bob blwyddyn ar feddyginiaethau presgripsiwn, sydd bron £200 y flwyddyn ar gyfer pob person yng Nghymru.

Fferyllwyr yw'r arbenigwyr ar feddyginiaethau. Gwyddant beth mae meddyginiaethau yn ei wneud, ar gyfer beth y maent a'r ffordd fwyaf effeithiol o'u defnyddio. Gall defnyddio meddyginiaeth yn effeithiol helpu i atal pobl rhag mynd yn wael yn y lle cyntaf. Gall rheolaeth gywir o feddyginiaethau sicrhau y gall pobl gyda salwch, yn cynnwys salwch cronig, fyw bywydau normal, hyd yn oed barhau i weithio. Gall meddyginiaethau oedi ymlediad rhai mathau o salwch, sy'n golygu nad yw pobl yn gorfod ymyrryd ar eu bywydau yn gynamserol yn unig oherwydd eu bod wedi cael cyflwr neilltuol. Yn gryno, gall meddyginiaethau, o'u defnyddio'n gywir a dan oruchwyliaeth fferylllydd - mae clinigydd proffesiynol ar gael ar bob stryd fawr yng Nghymru - helpu i atal salwch rhag dod yn ormod o faich ar y claf ac ar y GIG.

Nid yw rhwng 30% a 50% o gleifion yn cymryd eu meddyginiaethau'n gywir. Medrai hyn olygu eu bod yn methu cymryd y cwrs llawn o driniaeth, cymryd cyfuniad anaddas o feddyginiaethau neu'n methu cydymffurfio gyda'r dos a nodwyd. Beth bynnag y rheswm, mae camreoli meddyginiaethau'n arwain at dderbyniadau i ysbyty y medrid eu hosgoi, sy'n costio bron £10 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.

'bod cynnwys fferyllwyr cymunedol ac adolygiadau meddyginiaeth yn arwain at reoli mwy effeithiol ar feddyginiaethau a bod ganddo fanteision economaidd'.

Pryd bynnag mae meddyginiaeth yn gysylltiedig, mae angen i fferylliaeth gymunedol fod yn ganolog i'r drefn rheoli meddyginiaethau. P'un ai yw hynny'n gwella defnydd y claf o feddyginiaethau, cynyddu diogelwch mewn cartrefi gofal, cefnogi trosglwyddo diogel rhwng gosodiadau gofal drwy gysoni meddyginiaeth, neu roi cyngor a chefnogaeth ar feddyginiaethau i weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, mae fferylliaeth gymunedol yn ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth gyda threfn meddyginiaethau. Canfu dwy astudiaeth achos diweddar a gynhaliwyd o fewn safleoedd

Arddangosydd Rheolaeth Chyflyrau Cronig Cymru fod cynnwys fferyllwyr cymunedol ac adolygiadau meddyginiaeth yn arwain at reoli mwy effeithiol ar feddyginiaethau a bod ganddo fanteision economaidd.

Dyna pam ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru nesaf yn gwneud fferylliaeth gymunedol yn ganolog i reoli meddyginiaethau yng Nghymru. Medrir cyflawni hyn drwy gyflwyno ystod o **Wasanaethau Rheolaeth Meddyginiaethau** cenedlaethol wedi'u targedu gyda'r nod o wella cydymffurfiaeth a defnydd cleifion o feddyginiaethau.



Gwastraff Meddyginiaethau

Y meddyginiaethau drutaf y mae'r GIG yn eu darparu yw'r rhai na chânt byth eu cymryd. Mae sgandal meddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn ond na chânt byth eu cymryd yn costio bron £4 miliwn y mis i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn meddyginiaethau a wastreffir. Mae ymgyrch ymwybyddiaeth cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad *Gwastraffu Moddion, Gwastraffu Arian*, yn anelu i ddangos maint y broblem. Mae achosion gwastraff meddyginiaethau yn hysbys iawn. Mae'r datrysiadau yn glir. Mae archebu, rhagnodi a chyflenwi aneffeithiol yn golygu na chaiff hyd at 50% o feddyginiaethau ar gyfer cyflyrau cronig eu cymryd yn ôl y bwriad gan ychwanegu £13 miliwn o wariant diangen bob blwyddyn.

Nid yw dim o'r datrysiadau i'r broblem meddyginiaethau gwastraff yn 'gynlluniau ticed mawr' drudfawr. Maent yn ffyrdd syml, effeithiol, craff a fforddiadwy o wella cyflenwi gwasanaeth a sicrhau bod y GIG yng Nghymru'n sicrhau'r gwerth gorau o'i ymrwymiad gwariant mwyaf. Mae **gwasanaeth Targed Gwastraff Meddyginiaethau** mewn fferyllfeydd cymunedol a gyflwynwyd mewn ymateb i ymgyrch Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud cyfraniad sylweddol at y gostynigad mewn meddyginiaethau a wastreffir y mae'r Llywodraeth yn ei geisio.

Fferylliaeth Gymunedol ar Waith...

Yn **Nghymru**, ers 2005 mae'r nifer o Adolygiadau Defnydd Meddyginiaethau a gynhaliwyd mewn fferyllfeydd cymunedol wedi tyfu o ddim i dros 100,000 bob blwyddyn. Mae bron hanner hyn wedi arwain at argymhelliad gan y fferylllydd fod y claf yn newid eu trefn meddyginiaethau a bydd chwarter wedi arwain at atgyfeiriad at eu meddyg teulu.

Yn **Awstralia**, mae fferyllfeydd cymunedol yn darparu Gwasanaeth Meddyginiaeth Cartref, gan roi cefnogaeth werthfawr i gleifion sydd angen cymorth yn y cartref.



Rheoli Cyflyrau Cronig

Mae Cymru'n dioddef rhai o'r cyfraddau uchaf o salwch hirdymor yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn doddi baich enfawr ar adnoddau gwasanaeth iechyd gan wneud rheoli cyflyrau cronig y brif her i GIG Cymru.

Mae'r canran o bobl gyda chyflyrau cronig a gaiff eu derbyn i ysbyty yn ddiangen o uchel. Fel arfer mae hyn yn ganlyniad rheoli aneffeithiol ar eu cyflwr. Mae'r rhai sy'n dioddef o diabetes, clefyd y galon, asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ymysg prif ddefnyddwyr gwasanaethau drutaf y GIG, gan eu gwneud yn gohort drud o ddefnyddwyr gwasanaeth iechyd.

Mae hybu iechyd effeithiol a hunanofal yn ganolog i reoli cyflyrau cronig yn effeithiol. Gyda chefnogaeth gywir, gall pobl sy'n dioddef o'r cyflyrau hyn barhau i fyw yn y gymuned, gyda llai o waethygiadau, llai o gwympiadau a thorri cluniau gan helpu i osgoi triniaeth a gofal diangen mewn ysbyty. Drwy ddarparu gwasanaethau rheoli meddyginiaethau ansawdd uchel ynghyd â monitro a chefnogaeth rheoli, gall fferyllfeydd cymunedol fod â rôl sylweddol mewn cefnogi pobl gyda chyflyrau cronig.

Ar gyfer hyn mae angen cyflwyno **Gwasanaeth Rheoli Cyflyrau Cronig** mewn fferyllfeydd cymunedol lle caiff fferyllfeydd cymunedol eu hintegreiddio'n llawn i lwybrau cyflyrau cronig yn darparu cyfleusterau hygrych ar gyfer profi ystod o afiachusrwydd, cyflenwi brechiadau ffliw, cefnogi pobl sy'n byw gyda diabetes, clefyd y galon a chyflyrau anadlol a thrwy chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau tele-iechyd.

Mae'r canran o bobl gyda chyflyrau cronig a gaiff eu derbyn i ysbyty yn ddiangen o uchel. Fel arfer mae hyn yn ganlyniad rheoli aneffeithiol ar eu cyflwr.



Fferylliaeth Gymunedol ar Waith...

Yn **City a Hackney**, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaennol wasanaeth brechiadau ffliw mewn fferyllfeydd cymunedol i fynd i'r afael â'r diffyg yn erbyn targedau imiwneiddio. Arweiniodd hyn at iddynt gyflawni eu targed deunydd am y tro cyntaf oll.

Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol hefyd Wasanaeth Cefnogaeth Meddyginiaethau Asthma mewn fferyllfeydd cymunedol. Fel canlyniad darganfuwyd fod 56% o gleifion yn defnyddio eu meddyginiaethau'n aneffeithiol a bod 38% angen newidiadau i'w meddyginiaeth. Yn ogystal, bu gostyngiad o 30% yn nifer y cleifion gyda



rheolaeth wael a chynyddodd nifer y cleifion gydag asthma'n cael ei reoli'n dda gan 80%.

Yn yr **Almaen**, mae fferyllfeydd cymunedol yn arwain yr her i wella rheoli asthma a COPD dan gontract cenedlaethol, ac maent wedi rhoi cefnogaeth i 1.2 miliwn o gleifion.

Ym **Mhortiwgal**, mae fferyllfeydd cymunedol yn trin diabetes, pwysedd gwaed uchel ac asthma.

Yn yr **Alban**, mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu cytundeb rhannu gofal gyda meddygon teulu i drin cleifion unigol gyda chyflyrau hirdymor fel rhan o'u contract fferylliaeth gymunedol genedlaethol.

Cysoni Meddyginiaeth pan gaiff Cleifion eu Rhyddhau o Ysbyty

Gwaetha'r modd, bydd llawer ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau angen triniaeth a gofal mewn ysbyty, cartref gofal neu hosbis. Pryd bynnag a lle bynnag mae meddyginiaethau yn rhan o ddarpariaeth triniaeth neu ofal, mae gan fferyllfeydd cymunedol rôl hollbwysig i'w chwarae wrth roi cyngor a chefnogaeth ar sut i liniaru effeithiau gwaethaf ac achosion poen a dioddefaint.

Gall trosglwyddo cleifion rhwng gwahanol osodiadau gofal fod yn drammatig ynddo'i hunan. Mae cleifion yn agored i fwy o risg pan fo trosglwyddiadau'n cyd-daro gyda systemau llai nag effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae rhwng 4% a 5% o dderbyniadau ysbyty yn ganlyniad digwyddiadau y medrid bod wedi'u hosgoi yn gysylltiedig â meddyginiaeth. Yn ychwanegol, dangosodd ymchwil ddiweddar fod gwybodaeth ar ryddhau yn wael, gyda 25% o lythyrau rhyddhau o ysbyty byth yn cyrraedd meddyg teulu'r claf a 20% o achosion rhyddhau o ysbyty yn arwain at aildderbyn i ysbyty oherwydd diffyg gwybodaeth. Yn y sefyllfa hon, mae'n hanfodol fod fferyllwyr cymunedol, fel yr arbenigwyr mewn meddyginiaeth ac yn aml y cysylltiad allweddol gyda chleient cyn eu derbyn ac ar ôl rhyddhau o ysbyty, yn ymwneud â'r broses drosglwyddo. Mae trafodaethau cyfredol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadarnhau hyn.

Mae problemau gyda rheoli meddyginiaethau hefyd yn gyffredin mewn cartrefi gofal. Dangosodd ymchwil, ar adeg pan fo gwasanaethau fferylliaeth gymunedol i gartrefi gofal yn cael eu dadgomisiynu, bod cynifer â 70% o gleifion mewn cartrefi gofal wedi dioddef o leiaf un camgymeriad cyffuriau ac nad yw traean y meddyginiaethau a ddylai gael eu monitro ar gyfer sgil-ffeithiau yn cael eu monitro mewn gwirionedd. Daeth yr adborth o un o Safleoedd Arddangosydd Cyflyrau Cronig yng Nghymru i'r casgliad y medrai fferyllwyr yn adolygu meddyginiaethau preswylwyr mewn cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl arbed dros £200,000 y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.

Drwy beidio sefydlu prosesau cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn gosodiadau gofal ac fel rhan o brosesau derbyn a rhyddhau o ysbyty, mae'r sefyllfaoedd hyn yn dangos yn glir bod GIG Cymru yn methu diogelu cleifion ac yn methu manteisio o arbedion posibl. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am **Wasanaeth Cysoni a Chymorth Meddyginiaethau** pan gaiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty ar gyfer cleifion sy'n trosglwyddo rhwng gosodiadau gofal a chynnwys fferylliaeth gymunedol yn rheolaeth effeithol prosesau meddyginiaeth mewn cartrefi gofal.



... cynifer â 70% o gleifion mewn cartrefi gofal wedi dioddef o leiaf un camgymeriad cyffuriau ac nad yw traean y meddyginiaethau a ddylai gael eu monitro ar gyfer sgil-ffeithiau yn cael eu monitro mewn gwirionedd.

Fferylliaeth Gymunedol ar waith...

Yn **Bournemouth and Poole**, amcangyfrifwyd fod gwasanaeth rheoli meddyginiaethau cydlynol ar gyfer cleifion agored i niwed yn eu cartrefi, sy'n gwneud defnydd llawn o sgiliau fferyllwyr cymunedol lleol, yn gostwng derbyniadau argyfwng i ysbyty gan 25% a bod costau presgripsiynau wedi gostwng gan £25,000 ar yr un pryd.

Yn **Wrecsam**, arweiniodd cynllun peilot mewn fferyllfa gymunedol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth meddyginiaethau pan oedd cleifion yn cael eu rhyddhau o ysbyty at ymyriadau clinigol arwyddocaol mewn 19% o gleifion.



Yn **Ngogledd Cymru**, amcangyfrifodd astudiaeth yn cynnwys cyngor fferylliaeth gymunedol i gartrefi gofal y medrid sicrhau arbediad cost blynyddol o £202,126 o ymestyn y gwasanaeth ar draws Cymru.

Yng **Nghanol Swydd Caerhirfryn**, gostyngodd nyrsys yn gweithio gyda fferyllfa gymunedol i roi cefnogaeth i gartrefi gofal nifer y troeon y cafodd meddygon teulu eu galw allan i gartrefi cymunedol gan dros 90% a sicrhau 7% o ostyngiad mewn derbyniadau i ysbyty.



cymuned. Os yw anghenion iechyd rhywiol poblogaeth Cymru i gael eu diwallu, yna mae'n hanfodol fod pob fferyllfa gymunedol yn medru cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau iechyd rhywiol yn cynnwys imiwneiddio ar gyfer cancer ceg y groth, profi a thriniaeth heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol, cyflenwad atal cenedlu geneuol a thriniaeth ar gyfer trafferthion codol.

Os yw anghenion iechyd rhywiol poblogaeth Cymru i gael eu diwallu, yna mae'n hanfodol fod pob fferyllfa gymunedol yn medru cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau iechyd rhywiol ...

Gwasanaeth Iechyd Rhywiol

Nid yw bywyd bob amser yn mynd yn ôl y cynllun. Pan nad yw pethau'n disgyn i'w lle yn union fel y byddem wedi dymuno, mae'n hanfodol medru cael y cyngor a'r gefnogaeth rydym ei angen i unioni pethau. Mae fferyllfeydd cymunedol ar gael i roi'r help llaw hynny sydd ei angen bob amser.

P'un ai ar gyfer help i wella eich iechyd, cymorth i gefnogi dewis ffordd o fyw neu ddarparu rhwyd ddiogelwch pan aiff pethau o chwith, mae'r rhwydwaith fferylliaeth gymunedol mewn lle unigryw i fedru cynnig y cyngor y mae pobl ei angen wrth iddynt deithio drwy fywyd.

Mae gan Gymru un o'r cyfraddau gwaethaf ar gyfer heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif i fwy na 2000 o ferched dan 18 yng Nghymru feichiogi a bod tua 400 o ferched dan 16 oed wedi beichiogi. Gall fferyllfeydd cymunedol roi cyngor a chymorth ar iechyd rhywiol i rai sydd yn eu perthynas gyntaf a hefyd berthynas sefydlog.

Daeth fferyllfeydd cymunedol yn ddarparpwydd o ddewis ar gyfer cyflwyno atal cenedlu hormonaidd (EHC) mewn argyfwng, a gyfnerthwyd ymhellach gan benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Gwasanaeth Estynedig Cyfeiriedig cenedlaethol mewn fferyllfeydd cymunedol o fis Ebrill 2011.

Fodd bynnag, aiff uchelgais Llywodraeth y Cynulliad am wasanaeth iechyd rhywiol cyfannol ymhell tu hwnt i gyflenwi EHC. Mae'n galw am ddarpariaeth gwasanaeth iechyd rhywiol cynhwysfawr a hygyrch a gyflwynir gan weithwyr proffesiynol yn gweithredu yng nghalon pob

Camddefnyddio Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau

